**Rhif: WG53978**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Cynigion ar gyfer cyflwyno Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru

Chwefror 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2026 ISBN Digidol 978-1-83715-987-1

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ‘Cynigion ar gyfer ymagwedd at Gronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru’, a gynhaliwyd rhwng 7 Tachwedd a 19 Rhagfyr 2025. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar yr egwyddorion, y blaenoriaethau a'r trefniadau cyflawni arfaethedig ar gyfer Cynllun Buddsoddi'r Gronfa Twf Leol (GTL) ar gyfer Cymru.

## Camau i’w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn iaith arall.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran Strategaeth Economaidd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: BuddsoddiRhanbartholyngNghymru@gov.wales

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen at y ddogfen ymgynghori: hyperddolen

## Cynnwys


Cynnwys ... 3
Cyflwyniad ... 4
  Y Cyd-destun ... 4
  Trosolwg ... 4
  Themâu trawsbynciol a godwyd gan ymatebwyr ... 6
Crynodeb o’r Ymatebion: Y Cyd-destun Polisi ... 9
Crynodeb o’r Ymatebion: Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol ... 12
  Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol ... 12
  Cefnogi pobl i gael gwaith a chynyddu eu sgiliau ... 18
  Seilwaith Gwyrdd ac effeithlonrwydd ynni ... 23
  Seilwaith lleol yn sbarduno economïau rhanbarthol ... 29
Model Pontio a Chyflawni: Crynodeb o’r Ymatebion ... 35
  Rheoli’r Broses Pontio o’r Gronfa Ffyniant Gyffredin i’r Gronfa Twf Lleol yng Nghymru ... 35
  Buddsoddiad Cenedlaethol ... 39
  Methodoleg Dyrannu ... 44
  Cynlluniau twf rhanbarthol sy’n gysylltiedig â gweledigaeth deng mlynedd ... 47
  Rôl Cyflawni’n Lleol mewn Cynllunio Cenedlaethol a Rhanbarthol ... 52
  Monitro a Gwerthuso ... 55
Effaith ar y Gymraeg: Crynodeb o’r Ymatebion ... 58
Sylwadau ychwanegol ... 63
Ymateb Llywodraeth Cymru ... 66
Y Camau Nesaf ... 67
Atodiad A: Rhestr o’r ymatebwyr ... 69

## Cyflwyniad

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr ymgynghoriad ar y Gronfa Twf Lleol (GTLl) yng Nghymru a gofynnodd am farn ar y cynigion sydd wedi'u hamgáu. Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 7 Tachwedd a daeth i ben ar 19 Rhagfyr 2025. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd, gan ymgorffori'r adborth o 154 o gyflwyniadau ysgrifenedig. Mae dadansoddiad ar wahân o'r adborth o'r pedwar digwyddiad rhanbarthol ar-lein i ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd rhwng 18 a 27 Tachwedd 2025. Byddwn yn cyhoeddi'r dadansoddiad hwn hefyd.

### Y Cyd-destun

Ym mis Hydref 2025, cadarnhaodd Llywodraeth y DU y byddai £547m ar gael i Lywodraeth Cymru dros gyfnod o dair blynedd rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2029 i ddarparu Cronfa Twf Lleol yng Nghymru. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyllid hwn yng Nghymru, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu Cynllun Buddsoddi i Gymru.

Datblygwyd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori yn sgil ymgysylltu â phartneriaid a chyfres o dystiolaeth, gan gynnwys Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol Cymru, dadansoddiad economaidd-gymdeithasol, ac arferion gorau rhyngwladol. Yn unol ag uchelgeisiau Llywodraeth y DU ar gyfer y GTLl ledled y DU, gofynnodd yr ymgynghoriad am safbwyntiau ar sut i ganolbwyntio'r buddsoddiad ar sail faint o gyllid sydd ar gael, y cymysgedd cyllid refeniw cyfalaf 70-30 a'r cyfnod cyllido tair blynedd. Nod yr ymgynghoriad oedd gofyn am farn ar yr amrywiaeth o gamau gweithredu sydd eu hangen i lunio Cynllun Buddsoddi i Gymru y GTLl sy'n canolbwyntio ar gynyddu cynhyrchiant a lleihau anghydraddoldebau economaidd yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion i bob un o gwestiynau'r ddogfen ymgynghori.

### Trosolwg

Cyn lansio'r ymgynghoriad, gofynnwyd i aelodau Grŵp Llywio Buddsoddiad Rhanbarthol yng Nghymru (RIWSG) rannu'r ddogfen ymgynghori â'u sectorau a'u rhwydweithiau. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad drwy Ddatganiad Ysgrifenedig, ac ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio (CSEEP) hefyd at Bwyllgorau'r Economi, Masnach a Materion Gwledig a Chyllid, ac at Brif

Weithredwyr Awdurdodau Lleol i roi gwybod iddynt am ddyddiad lansio'r ymgynghoriad.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad. Cafwyd 154 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein, 13% ohonynt gan unigolion ac 87% gan sefydliadau. Dywedodd 75% o'r ymatebwyr eu bod yn byw yng Nghymru (1% o'r tu allan i Gymru, 24% heb ymateb) ac roedd gan 40% fuddiant busnes yng Nghymru (ymatebodd 34% "nac oedd", ac roedd 26% heb ymateb). Cafodd yr ymatebwyr eu neilltuo i gategorïau sector penodol ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd. Gan fod rhai ymatebwyr yn sefydliadau sy'n cynrychioli nifer o aelodau (e.e. Ffederasiwn Busnesau Bach, CGGC, CLILC, Colegau Cymru), dadansoddwyd yr ymatebion gan ddefnyddio dulliau ansoddol a meintiol i gofnodi ystod a dyfnder y safbwyntiau a fynegwyd. Os na nodwyd hynny neu os nad oedd sector penodol yn amlwg, neilltuwyd categori i'r ymatebion ar sail barn wybodus. Er enghraifft, mae addysg uwch ac addysg bellach wedi'u cynnwys yn y categori sector cyhoeddus. Cafodd ymatebion cyffredinol gan y rhai na ddefnyddiodd y ffurflen ar-lein safonol eu dadansoddi a'u priodoli i'r cwestiwn/cwestiynau mwyaf perthnasol neu eu cynnwys yn yr adran materion cysylltiedig.

| **Categori** | **Nifer (%)** |
|---|---|
| Unigolion | 21 (13) |
| Y sector preifat | 12 (8) |
| Y Trydydd Sector | 63 (41) |
| Sector cyhoeddus | 26 (17) |
| Awdurdod Lleol | 32 (21) |
| Cyfanswm | 154 (100) |

Tabl 1: Dadansoddiad o'r ymatebwyr yn ôl categori

Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr wedi'i chynnwys yn Atodiad A (ac eithrio unigolion a'r ymatebwyr hynny sy'n dewis cadw eu hymateb yn gyfrinachol). Mae'n bwysig nodi bod rhai ymatebwyr yn gwneud hynny ar ran eu haelodau cyfansoddol, er enghraifft ymatebodd y Ffederasiwn Busnesau Bach, sy'n cynrychioli buddiannau miloedd o fusnesau.

Nid oedd pob ymatebydd wedi ateb y cwestiynau'n uniongyrchol; dewisodd rhai beidio ag ateb cwestiwn penodol, ac anfonodd eraill grynodeb o'u barn yn hytrach na llenwi'r ffurflen ar y we.

Nid yw'n fwriad gennym, ac ni fyddai modd, adlewyrchu pob sylw a ddaw i law yn y crynodeb hwn o'r ymatebion. Y pwrpas yw rhoi trosolwg o'r ymatebion a rhoi syniad o'r materion a'r pryderon a godwyd mewn perthynas â'r cwestiynau a ofynnwyd. Mae'n bwysig nodi na ddylid ystyried bod y crynodeb o'r ymatebion a ddisgrifir yma yn cynrychioli safbwyntiau'r boblogaeth ehangach ac mai dim ond safbwyntiau'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad y gellir dweud eu bod yn eu cynrychioli.

Defnyddiwyd Microsoft Copilot - cynorthwyydd deallusrwydd artiffisial - wrth gynhyrchu'r crynodeb hwn o ymatebion, yn bennaf yng ngham cyntaf y broses i nodi themâu allweddol o'r ymatebion crai i'r ymgynghoriad. Cynhaliwyd gwiriadau trylwyr i sicrhau bod yr allbynnau a gynhyrchwyd yn adlewyrchu'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Themâu trawsbynciol a godwyd gan ymatebwyr**

Daeth sawl thema i'r amlwg ar draws holl gwestiynau'r ymgynghoriad. Er bod safbwyntiau'n amrywio rhwng sectorau, tynnwyd sylw at dri phryder yn gyson:

- Cydbwysedd cyllid refeniw a chyfalaf

Pwysleisiodd ymatebwyr — yn enwedig o awdurdodau lleol, y trydydd sector a sefydliadau llai — dro ar ôl tro fod model sy'n drwm ar gyfalaf mewn perygl o danseilio capasiti cyflawni. Rhybuddiodd llawer y byddai buddsoddiad cyfalaf heb staff, cymorth arbenigol a strwythurau cyflawni sydd wedi'u gwreiddio'n lleol yn cyfyngu ar effaith gyffredinol y Gronfa.

- Risgiau i barhad yn ystod y cyfnod pontio o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin(GFfG) i'r GTLI

Roedd pryderon eang ynghylch bylchau posibl yn y ddarpariaeth, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc NEET (nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant), oedolion economaidd anweithgar, a gwasanaethau yn y gymuned sy'n dibynnu ar berthnasoedd sefydlog a phartneriaid cyflenwi dibynadwy. Tynnodd ymatebwyr sylw

at y perygl o golli staff medrus a thanseilio ymgysylltiad os nad yw cynlluniau parhad clir yn cael eu cyfleu'n gynnar.

- Safbwyntiau amrywiol ar rôl a pharodrwydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gydlynu'n rhanbarthol

Roedd llawer o ymatebwyr yn cydnabod gwerth posibl cydlynu rhanbarthol ond yn mynegi pryder ynghylch capasiti presennol y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, aeddfedrwydd llywodraethu a chynrychiolaeth sectoraidd i gyflawni'r rôl hon - yn enwedig o ran cyflogaeth a sgiliau. Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau yn erbyn cydlynu rhanbarthol ac yn hytrach yn dadlau dros ddulliau sy'n cael eu harwain gan awdurdodau lleol. Roedd lleiafrif yn gwrthwynebu unrhyw rôl i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Y cwestiynau a ofynnwyd:

**Cwestiwn 1:** A ydych yn cytuno â'r egwyddorion arweiniol craidd ac y dylid eu defnyddio ym mhob rhan o Gynllun Buddsoddi newydd i Gymru?

**Cwestiwn 2:** A ddylem ni fod yn ystyried unrhyw egwyddorion eraill?

**Cwestiwn 3:** Ydych chi'n cytuno mai'r materion allweddol a nodwyd yn y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol cryno (Atodiad A) yw'r rhai cywir y dylem ganolbwyntio ar fynd i'r afael â nhw?

**Cwestiwn 4:** Pa un o'r amcanion strategol hyn, neu eraill, fyddech chi'n blaenoriaethu i ddarparu busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol?

**Cwestiwn 5:** Pa un o'r amcanion strategol hyn, neu eraill, fyddech chi'n blaenoriaethu i gefnogi pobl i ddechrau gweithio a chynyddu eu sgiliau?

**Cwestiwn 6:** Pa rai o blith yr amcanion strategol hyn fyddech chi'n eu blaenoriaethu i yrru cyfleoedd o ynni carbon isel a chysylltedd ar gyfer twf a lleihau anghydraddoldebau?

**Cwestiwn 7:** Pa un o'r amcanion strategol hyn fyddech chi'n blaenoriaethu i dargedu buddsoddiad mewn seilwaith lleol i yrru economïau rhanbarthol?

**Cwestiwn 8:** Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig hwn o reoli'r newid rhwng y GFfG a'r GTLI yng Nghymru neu a oes gennych chi unrhyw farn bellach?

**Cwestiwn 9:** Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu ar gyfer buddsoddiadau cenedlaethol?

**Cwestiwn 10:** A oes gennych chi farn am unrhyw ymyriadau penodol y dylid eu blaenoriaethu ar lefel genedlaethol yn unrhyw un o'r meysydd blaenoriaeth buddsoddi a ddisgrifir yn Adran 2?

**Cwestiwn 11:** A oes gennych chi farn am y meini prawf y dylid eu defnyddio i bennu dyraniadau rhanbarthol, sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau?

**Cwestiwn 12:** Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig gysylltu â gweledigaeth deng mlynedd a chytuno ar gynllun cyflawni gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllid Twf Lleol?

**Cwestiwn 13:** A oes gennych unrhyw farn am sut gellir cynnwys cyflawni lleol mewn cynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol?

**Cwestiwn 14:** A ydych chi'n cytuno â'r dull o fonitro a gwerthuso?

**Cwestiwn 15:** Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai ein cynigion ar gyfer y GTLl yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 16:** Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y cynigion polisi arfaethedig ar gyfer y GTLl er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 17:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch yr ymgynghoriad hwn i fynd i'r afael â nhw.

## Crynodeb o'r Ymatebion: Y Cyd-destun Polisi

Nod y Polisi

Ein nod ar gyfer y GTLl yng Nghymru yw cefnogi twf cynhyrchiant a mynd i'r afael â materion sy'n arwain at anghydraddoldebau economaidd ledled Cymru. Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, cynigiwyd yr egwyddorion canlynol i lywio gwaith cynllunio a buddsoddiadau. Datblygwyd y rhain drwy ein gwaith gyda phartneriaid yng Nghymru a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) dros nifer o flynyddoedd:

a) Canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau i gefnogi newidiadau hirdymor. Dylai buddsoddiadau gyfrannu at flaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol a dangos effaith amlwg.

b) Cefnogi a grymuso rhanbarthau drwy'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i flaenoriaethu portffolios o fuddsoddiadau sy'n seiliedig ar gyfleoedd ac anghenion rhanbarthol a lleol. Rydym yn disgwyl i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ddenu buddsoddiad ehangach gyda'r cyllid hwn a gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a'r bartneriaeth ehangach.

c) Integreiddio â rhaglenni eraill Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac ychwanegu gwerth atynt er mwyn osgoi dyblygu a chynyddu effaith a gwerth am arian.

d) Rhoi digon o hyblygrwydd i ymateb i dystiolaeth ac anghenion newydd sy'n dod i'r amlwg, gan gyflawni uchelgeisiau cyffredin Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar yr un pryd.

e) Cynllunio'n strategol ar sail amlflwydd i roi mwy o ffocws ar ganlyniadau tymor hwy yn hytrach na gwario arian yn gyflym.

f) Integreiddio cydraddoldeb, datblygu cynaliadwy a'r Gymraeg ym mhob buddsoddiad.

g) Annog cydweithio ar draws ffiniau, yng Nghymru, a ledled y DU ac yn rhyngwladol lle mae gennym anghenion neu gyfleoedd cyffredin.

h) Sicrhau bod gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig, awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol y gallu a'r capasiti cywir i ddylunio a chyflawni'r GTLl, gan gynnwys ar gyfer trefniadau pontio a buddsoddi mewn capasiti hirdymor.

i) Cyflawni ein hymrwymiad i fod yn agored, yn deg ac yn dryloyw ynghylch buddsoddiadau drwy gyhoeddi gwybodaeth a data ar gyflawniad yn rheolaidd.

Dull

Mae'r adran hon yn cyfosod cyflwyniadau'r ymatebwyr i Gwestiynau 1, 2 a 3 mewn perthynas â'r weledigaeth strategol gyffredinol. Mae'r crynodeb yn adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth barn ac nid yw'n cyflwyno pwysoliadau meintiol na chyfrif ymatebion o blaid/yn erbyn egwyddorion penodol.

**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'r egwyddorion arweiniol craidd ac y dylid eu defnyddio ym mhob rhan o Gynllun Buddsoddi newydd i Gymru?**

Adborth i'r Ymgynghoriad

Roedd cefnogaeth eang i'r egwyddorion arweiniol craidd ar gyfer y gronfa newydd ar draws pob sector. Dangosodd y sector preifat (83% Cytuno) y lefelau uchaf o gytuno, gyda dim ond lleiafrif bach yn mynegi anghytundeb neu ddim yn ymateb. Mae hyn yn awgrymu bod yr egwyddorion yn taro tant â rhanddeiliaid busnes. Roedd y sector Addysg Uwch/Addysg Bellach a'r sector cyhoeddus (78% Cytuno) a'r trydydd sector (76% Cytuno) hefyd yn dangos cefnogaeth gref, gan ddangos cefnogaeth gyffredinol ymysg sefydliadau sy'n canolbwyntio ar fuddiannau gwasanaeth cyhoeddus a chymunedol. Roedd ymatebwyr unigol yn fwy rhanedig, gyda 43% yn cytuno a 52% yn anghytuno. Dangosodd awdurdodau lleol gytundeb mwyafrifol (55% Cytuno), ond nhw hefyd oedd â'r gyfran uchaf o ddiffyg ymateb (21%), yn ogystal â lleiafrif sylweddol yn anghytuno (18%) a 3% yn cytuno'n rhannol. Mae hyn yn awgrymu rhywfaint o ansicrwydd neu amheuon yn y sector, gyda phryderon dro ar ôl tro am drefniadau cyflawni, llywodraethu, cydbwysedd cyllido ac amserlenni.

**Cwestiwn 2: A ddylem ni fod yn ystyried unrhyw egwyddorion eraill?**

Adborth i'r Ymgynghoriad

Yn ogystal â chefnogaeth gyffredinol i'r egwyddorion arweiniol, ystyriwyd bod gwreiddio gweithredu ar yr hinsawdd a chynaliadwyedd ar draws yr holl flaenoriaethau yn flaenoriaeth gan ymatebwyr ar draws y sectorau, gyda'r argymhelliad y dylid ei drin

fel egwyddor drawsbynciol i sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig ar gyfer polisïau ac ymyriadau o fewn y GTLI.

Ar ben hynny, mynegodd nifer nodedig o ymatebwyr bwysigrwydd cynnwys iechyd a llesiant yn benodol fel egwyddor graidd yng Nghynllun Buddsoddi'r GTLI. Dywedodd rhai y dylai gwella iechyd y boblogaeth a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd fod yn ganolog i bob buddsoddiad, gan argymell bod y nodau hyn yn cael eu gwneud yn glir fel egwyddorion sylfaenol.

Yn fwy cyffredinol, trafododd yr ymatebwyr y ffaith y dylid mynd i'r afael ag anghydraddoldebau - boed hynny'n economaidd-gymdeithasol, daearyddol neu ieithyddol - er mwyn sicrhau bod twf yn wirioneddol gynhwysol. Soniodd yr ymatebwyr fod angen tegwch a phenderfyniadau sy'n seiliedig ar leoedd. Teimlai llawer nad oedd y dadansoddiad yn mynd i'r afael yn ddigonol ag anfantais wledig, amddifadedd arfordirol, nac anghenion penodol trefi bach ac ardaloedd anghysbell gyda phryderon y byddai dull gweithredu 'un ateb sy'n addas i bawb' yn methu â mynd i'r afael â gwahaniaethau oddi mewn i Gymru.

**Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno mai'r materion allweddol a nodwyd yn y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol cryno (Atodiad A) yw'r rhai cywir y dylem ganolbwyntio ar fynd i'r afael â nhw?**

<u>Adborth i'r Ymgynghoriad</u>

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ar draws pob sector yn cefnogi'r canolbwyntio ar y materion economaidd-gymdeithasol a nodwyd. Roedd cefnogaeth gref i ganolbwyntio ar anweithgarwch economaidd, bylchau mewn cynhyrchiant ac anghydraddoldebau. Y sector preifat ddangosodd y lefel uchaf o gytundeb (83%), yna'r sector cyhoeddus (65%) ac unigolion (52%). Dangosodd y trydydd sector (60%) ac awdurdodau lleol (55%) gytundeb mwyafrifol hefyd, er bod gan y ddau grŵp gyfraddau uwch o ddiffyg ymateb ac, yn achos awdurdodau lleol, lleiafrif nodedig yn mynegi anghytundeb (24%) neu gytundeb rhannol (3%). Dangosodd awdurdodau lleol bryder bod y dadansoddiad yn rhy uchel, yn rhy genedlaethol ac nad oedd yn ddigon sensitif i amrywiadau lleol a rhanbarthol. Roedd yr anghytuno yn fwyaf amlwg ymysg

unigolion (43%), a dangoswyd amheuaeth ynghylch blaenoriaethau presennol y polisi economaidd, trafnidiaeth a hinsawdd.

Roedd llawer o'r ymatebion yn mynegi pwysigrwydd cysylltu canfyddiadau'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol â chamau gweithredu parhaus sy'n mynd i'r afael â'r materion, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi grwpiau agored i niwed, gan gynnwys menywod, pobl anabl a lleiafrifoedd ethnig. Galwodd y trydydd sector am fwy o bwyslais ar werth cymdeithasol a budd cymunedol, nid twf economaidd yn unig. Rhoddwyd enghreifftiau o enillion cymdeithasol cadarnhaol ar fuddsoddiad o raglenni blaenorol.

## Crynodeb o'r Ymatebion: Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol

<u>Dull</u>

Mae'r adran hon yn cyfosod cyflwyniadau ansoddol yr ymatebwyr i Gwestiynau 4, 5, 6 a 7. Mae'n adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth barn ac nid yw'n cyflwyno pwysoliadau meintiol na chyfrif ymatebion o blaid/yn erbyn amcanion penodol. Pan oedd ymatebwyr wedi cyflwyno themâu y tu hwnt i'r pedwar amcan, adroddir bod y rhain yn cyfleu'r cyd-destun a nodwyd ganddynt fel bod yn hanfodol i gynhyrchiant.

### Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol

<u>Bwriad Polisi</u>

Rydym am i fuddsoddiad sbarduno twf cynhyrchiant drwy gefnogi'r amodau cywir i entrepreneuriaid, busnesau newydd a sefydledig, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, dyfu, datblygu i fod yn fwy cynhyrchiol, a chreu swyddi o ansawdd uchel yng Nghymru a'u cadw yma.

<u>Yr Amcanion Strategol a Gynigir</u>

AS1. Cynyddu nifer y busnesau newydd a chwmnïau deillio gyda'r potensial i dyfu sy'n cael eu creu, gan gynnwys canolbwyntio ar grwpiau a mentrau cymdeithasol sy'n cael eu tangynrychioli.

AS2. Mynd i'r afael â rhwystrau i dwf (e.e. ehangu, buddsoddi cyfalaf, allforio a denu buddsoddwyr) ar gyfer busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol sydd â'r potensial i dyfu'n gyflym.

AS3. Mynd i'r afael â diffygion penodol yn y farchnad o ran cael gafael ar gyllid ad-daladwy i sefydlu a thyfu busnesau a mentrau cymdeithasol yng Nghymru.

AS4. Cynyddu lefelau buddsoddiad mewn capasiti ymchwil, datblygu ac arloesi a chyfnewid gwybodaeth mewn busnesau a sefydliadau ymchwil, gan gynnwys ym meysydd fel deallusrwydd artiffisial, seiberddiogelwch, a thwf digidol a gwyrdd.

**Cwestiwn 4: Pa un o'r amcanion strategol hyn, neu eraill, fyddech chi'n blaenoriaethu i ddarparu busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol?**

Adborth i'r Ymgynghoriad: Ymatebion fesul Amcan Strategol

**AS1**

Roedd cefnogaeth eang i arallgyfeirio'r economi a chryfhau entrepreneuriaeth gynhwysol, gan gynnwys drwy fentrau cymdeithasol a sylfaenwyr sy'n cael eu tangynrychioli. Nododd yr ymatebwyr bwysigrwydd ecosystemau deori sefydledig a nodwyd bod angen llwybrau masnacheiddio cliriach sy'n galluogi syniadau i fynd i mewn i farchnadoedd lleol yn fwy effeithiol.

**AS2**

Daeth yr amcan hwn i'r amlwg fel yr un a flaenoriaethwyd fwyaf cyson ar y thema hon ar draws yr ymatebwyr. Cyfeiriwyd at gyfyngiadau o ran adeiladau, buddsoddiad cyfalaf, parodrwydd i allforio, mabwysiadu digidol a gallu i arwain. Mynegwyd ffafriaeth ganddynt ar gyfer modelau cymorth integredig sy'n cael eu darparu'n lleol sy'n cyfuno cyngor, cyllid a darpariaeth mannau gwaith, gan leihau'r baich gweinyddol ar yr un pryd.

**AS3**

Roedd barn ar yr amcan hwn yn gymysg. Soniodd sefydliadau buddsoddi cymdeithasol am werth cyllid ad-daladwy a'r gallu i'w ailgylchu, tra bod sefydliadau sy'n gweithio gyda meicrofusnesau a chwmnïau gwledig wedi nodi'r angen am grantiau neu gyllid cyfunol i adlewyrchu lefelau uwch o risg ac amgylchiadau llif arian

llymach. Dywedodd ymatebwyr y byddai dylunio cynnyrch - yn enwedig o ran maint y tocyn, y telerau a'r eitemau cyfochrog - yn hanfodol wrth bennu effeithiolrwydd.

**AS4**

Rhoddodd sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, ynghyd â busnesau sy'n ddwys o ran arloesi, flaenoriaeth gref i'r amcan hwn. Canolbwyntiodd yr ymatebwyr ar bwysigrwydd cyfnewid gwybodaeth, lledaenu technoleg i fusnesau bach a chanolig, a masnacheiddio, yn hytrach nag ymchwil yn unig. Awgrymodd rhai y dylai'r GTLl ganolbwyntio ar lwybrau mabwysiadu a llwybrau sy'n barod ar gyfer y farchnad, gan ddefnyddio cyllid ymchwil a datblygu ehangach y DU lle bo hynny'n briodol.

Adborth i'r Ymgynghoriad: Dadansoddiad sectoraidd

**Unigolion**

Darparodd ymatebwyr unigol amrywiaeth eang o safbwyntiau, gan adlewyrchu profiad uniongyrchol o heriau economaidd lleol, pwysau ar wasanaethau cyhoeddus, a'r amodau ehangach sydd eu hangen i gefnogi busnesau cynhyrchiol a chystadleuol. Yn wahanol i ymatebwyr o sefydliadau, roedd unigolion yn tueddu i drafod y sylfeini cymdeithasol ac economaidd sy'n sail i gynhyrchiant yn hytrach na chanolbwyntio ar y pedwar AS yn unig. Ymysg y rhai hynny a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r AS, AS1 ac AS2 gafodd eu cymeradwyo amlaf, gydag ymatebwyr yn cydnabod eu potensial i ehangu cyfleoedd lleol a hyrwyddo cyfranogiad economaidd mwy cynhwysol.

Roedd y cyflwyniadau'n rhoi blaenoriaeth yn bennaf i fynd i'r afael â thlodi a'r argyfwng costau byw, cryfhau gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, gwella amodau busnes sylfaenol, a darparu cymorth ymarferol i wella gwydnwch meicrofusnesau a mabwysiadu technoleg ddigidol. Trafododd llawer y rhwystrau sydd wedi'u gwreiddio mewn hyder, bylchau mewn sgiliau ac anweithgarwch economaidd hirdymor, gan bwysleisio bod y materion sylfaenol hyn yn parhau i gyfyngu ar gyfranogiad yn y farchnad lafur.

Tynnodd yr ymatebwyr sylw at brofiad bywyd a photensial oedolion sydd wedi bod yn economaidd anweithgar am gyfnodau estynedig. Fel y nododd un ymatebydd, "Mae

gan y rhai dros 25 oed sgiliau a phrofiadau bywyd sylweddol sy'n aros i ffynnu... mae'n hanfodol nad yw'r amcanion strategol yn anwybyddu'r rhai anoddaf eu cyrraedd." Trafododd un arall effaith rhwystrau o ran cymwysterau sylfaenol ar gyflogadwyedd: "Roedd llawer wedi bod yn economaidd anweithgar ers 20 mlynedd a mwy... TGAU Mathemateg oedd yr unig rwystr a oedd yn eu dal yn ôl."

**Y Sector Preifat**

Gan amlaf, rhoddodd ymatebwyr o'r sector preifat flaenoriaeth i AS2, yn aml ochr yn ochr ag AS1 neu AS4. Roedd eu cyflwyniadau'n nodi pwysigrwydd cryfhau galluogrwydd digidol a seiber, gwella arweinyddiaeth a chymorth uwchraddio, a galluogi twf ar sail clystyrau ar draws sectorau gweithgynhyrchu uwch, technoleg ac economi werdd.

Roedd cyfran o'r ymatebion yn tynnu sylw at rwystrau parhaus sy'n gysylltiedig â chyllid i fusnesau bach a chanolig. Fel y nododd un ymatebydd, "Mynediad at gyllid yw'r un rhwystr mwyaf o hyd i gynhyrchiant...bydd buddsoddiad cyfalaf, gwella eiddo a mabwysiadu technoleg yn cael effaith uniongyrchol a mesuradwy." Dywedodd yr ymatebwyr fod mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn yn gofyn am gymorth ymarferol wedi'i dargedu yn hytrach na phrosesau biwrocrataidd, gan adlewyrchu teimladau fel "Cymorth i fusnesau bach a chanolig sefydledig uwchraddio... gan osgoi dull rhy fiwrocrataidd rhaglenni blaenorol."

Trafododd ymatebwyr hefyd nodweddion strwythurol economi Cymru - yn enwedig ei dibyniaeth ar feicrofusnesau. Fel y dywedodd un cyfrannwr, "Mae gan Gymru lawer o feicrofusnesau ond ychydig o gwmnïau sydd yng nghyfnod twf." Roedd hyn yn atgyfnerthu'r trafodaethau ar fuddsoddiad hirdymor, dyfnach mewn datblygu arweinyddiaeth, y gallu i dyfu a gwell mynediad at farchnadoedd.

Roedd cwmnïau mawr a busnesau sy'n arloesi'n ddwys, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gweithredu yn y sector awyrofod a sectorau eraill uchel eu gwerth, yn cynnig cefnogaeth gref i AS4. Roeddent yn nodi pwysigrwydd diwydiannu a masnacheiddio ymchwil a datblygu ac yn pwysleisio rôl hanfodol partneriaethau rhwng diwydiant, sefydliadau ymchwil a rhaglenni'r llywodraeth o ran cyflymu twf sy'n cael ei arwain gan arloesedd.

Roedd y farn am AS3 yn gymysg. Nododd rhai mai bylchau cyllid oedd y prif gyfyngiad ar dwf busnes, tra bod eraill yn dweud bod yn rhaid i Gymru adeiladu manteision technolegol neu eiddo deallusol cystadleuol yn gyntaf cyn manteisio'n llawn ar rwydweithiau buddsoddwyr.

**Y Trydydd Sector**

Yn gyffredinol, roedd sefydliadau trydydd sector yn blaenoriaethu AS1 ac AS2, gan bwysleisio'r gwerth economaidd a chymdeithasol deuol a gynhyrchir drwy fentrau cymdeithasol a modelau entrepreneuriaeth sydd wedi'u gwreiddio yn y gymuned. Trafododd ymatebwyr rôl mentrau cymdeithasol fel ysgogwyr twf ac arloesedd lleol, yn enwedig ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli "Mae cyfle clir i gefnogi pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig i hunangyflogaeth a meicrofenter."

Nododd rhanddeiliaid hefyd bwysigrwydd dulliau cyllid cyfunol o dan AS3. Roeddent wedi sylwi bod perygl i fodelau benthyciadau yn unig eithrio mentrau camau cynnar a sefydliadau yn y gymuned, gan nodi "Gall mentrau cymdeithasol gynyddu effaith yn sylweddol gyda'r cymysgedd cywir o refeniw, cyfalaf a chyllid ad-daladwy."

Ar draws cyflwyniadau, roedd y trydydd sector yn cysylltu cynhyrchiant yn gyson â phenderfynyddion cymdeithasol ehangach, gan gynnwys cynhwysiant yn y gweithlu, lleihau tlodi, cryfder cadwyni cyflenwi lleol, modelau cyflawni sy'n seiliedig ar leoedd, a mynediad at arloesi cymhwysol.

**Sector Cyhoeddus**

Gan amlaf, rhoddodd sefydliadau sector cyhoeddus flaenoriaeth i AS2 ac AS4, gan bwysleisio pwysigrwydd cydweithio ar draws sectorau rhwng busnesau, prifysgolion a chymunedau. Nododd ymatebwyr fod datblygu busnesau newydd yn elfen allweddol o arallgyfeirio economaidd rhanbarthol ehangach. Nid oedd AS3 yn cael cymaint o sylw, gyda sawl sefydliad yn nodi bod y ddarpariaeth bresennol eisoes yn diwallu rhai anghenion neu y gallai dulliau sy'n seiliedig ar grantiau fod yn fwy priodol mewn cyd-destunau penodol.

Rhoddodd prifysgolion a phartneriaid arloesi cyhoeddus flaenoriaeth bennaf i AS4 - yn aml ar y cyd ag AS1 ac AS2 - gan danlinellu pwysigrwydd llwybrau masnacheiddio, lledaenu busnesau bach a chanolig a'r angen i sicrhau bod buddsoddiad cyfalaf yn cael ei gefnogi gan gyllid refeniw cymesur. Trafododd rhai cyrff cyhoeddus hefyd

arwyddocâd mynediad at gyfalaf a rôl dadrisgio cyhoeddus mewn buddsoddiad preifat, yn enwedig ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â seilwaith, masnacheiddio neu arddangos technoleg uwch.

Roedd consensws clir ar draws y cyflwyniadau bod capasiti arloesi a llwybrau masnacheiddio yn gofyn am fodelau buddsoddi hirdymor a sefydlog, ac na ellir eu cynnal gan gylchoedd cyllido tymor byr na chylchoedd cyllido sy'n seiliedig ar brosiectau.

**Awdurdodau Lleol**

Gan amlaf, rhoddodd awdurdodau lleol flaenoriaeth i AS2, gydag AS1 hefyd yn cael pwyslais cryf. Nododd eu cyflwyniadau bwysigrwydd modelau cymorth sydd wedi'u dylunio'n lleol ond sydd wedi'u cysoni'n rhanbarthol, gan dynnu sylw at heriau strwythurol sylweddol ledled Cymru - yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ôl-ddiwydiannol ac arfordirol.

Roedd llawer o awdurdodau lleol yn dadlau dros barhau â grantiau bach sy'n cael eu darparu'n lleol, ac yn nodi eu bod yn ddulliau gweithredu effeithiol ar gyfer datgloi buddsoddiad preifat a diogelu swyddi, yn enwedig ar gyfer meicrofusnesau. Roedd eu hymatebion hefyd yn adlewyrchu pryder mawr ynghylch mynediad at safleoedd addas a chyfyngiadau defnyddio cyllid ad-daladwy ar wahân, gydag un awdurdod yn nodi: "Mae cyllid ad-daladwy yn unig yn anaddas... mae angen cyfuniadau grant/benthyciad, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig."

Roedd AS4 (Ymchwil, Datblygu ac Arloesi) yn hollti barn awdurdodau lleol. Er bod rhai'n croesawu ymdrechion wedi'u targedu i ledaenu gweithgarwch ymchwil, datblygu ac arloesi i fusnesau bach a chanolig, roedd eraill yn nodi na ddylai'r GTLI ddod yn brif gyllidwr ymchwil, datblygu ac arloesi o ystyried maint y rhaglenni ymchwil presennol ledled y DU.

<u>Casgliad</u>

Ar draws yr ymatebion, nodwyd dro ar ôl tro fod sylfeini cynhyrchiant yn ymestyn ymhell y tu hwnt i fetrigau busnes traddodiadol. Dywedodd ymatebwyr fod gwella cynhyrchiant yn gofyn am ddull system gyfan: un sy'n cryfhau cyfalaf dynol, yn cefnogi entrepreneuriaeth gynhwysol, ac yn sicrhau'r amodau cywir i gwmnïau bach feithrin gwydnwch yn ogystal â'r potensial i dyfu.

**Cefnogi pobl i gael gwaith a chynyddu eu sgiliau**

Bwriad Polisi

Rydym am fynd i'r afael â bylchau yn y cymorth sydd ei angen i helpu pobl i gael gwaith cynaliadwy o ansawdd da, cael cyflog teg amdano, ac i baratoi'r gweithlu ar gyfer heriau'r dyfodol.

Yr Amcanion Strategol a Gynigir

AS1. Lleihau lefelau anweithgarwch economaidd, yn enwedig ymysg pobl ifanc, pobl anabl, menywod a phobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol.

AS2. Gwella'r broses o gadw a datblygu grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn y gwaith,

gan gynnwys heriau cyflogaeth ansicr a chyflogau isel.

AS3. Gwella lefelau cymwysterau a/neu sgiliau, gan ganolbwyntio ar sgiliau sylfaenol ac uwch.

AS4. Cymorth a hyfforddiant sgiliau wedi'u teilwra sy'n seiliedig ar alw ar gyfer sectorau â photensial o dwf uchel neu sectorau o bwysigrwydd rhanbarthol.

**Cwestiwn 5: Pa un o'r amcanion strategol hyn, neu eraill, fyddech chi'n blaenoriaethu i gefnogi pobl i ddechrau gweithio a chynyddu eu sgiliau?**

Adborth i'r Ymgynghoriad: Ymatebion fesul Amcan Strategol

**AS1**

Cafodd yr amcan hwn gefnogaeth gref, yn enwedig gan sefydliadau trydydd sector ac awdurdodau lleol. Nododd ymatebwyr bwysigrwydd ymgysylltiad cynnar, ataliol yn y gymuned, ochr yn ochr â chymorth iechyd meddwl, trafnidiaeth a gofal plant integredig. Fe wnaethant hefyd drafod y ffaith bod angen dulliau wedi'u teilwra sy'n seiliedig ar berthynas ar gyfer pobl ifanc, pobl anabl, menywod a grwpiau lleiafrifoedd ethnig, gan nodi pwysigrwydd sicrhau nad yw unigolion yn llithro drwy fylchau rhwng gwasanaethau.

**AS2**

Er mai anaml y nodwyd mai'r amcan hwn oedd y brif flaenoriaeth, roedd ymatebwyr yn gyson yn ei ystyried yn hanfodol i gynnal canlyniadau hirdymor. Roeddent yn nodi bod angen hyfforddi a mentora strwythuredig yn y gwaith, darparu trefniadau gweithio hyblyg ac addasiadau rhesymol, a datblygu capasiti cyflogwyr - yn enwedig mewn busnesau bach a chanolig. Dywedodd ymatebwyr hefyd fod mynd i'r afael â chyflogau isel, ansicrwydd cyflogaeth, ac anghydraddoldebau ehangach yn y gweithle yn hanfodol er mwyn sicrhau bod unigolion nid yn unig yn gallu cael gwaith ond eu bod yn gallu aros a symud ymlaen ynddo.

**AS3**

Cafodd yr amcan hwn ei flaenoriaethu yn y thema hon ar draws pob sector. Soniodd yr ymatebwyr am bwysigrwydd canolog datblygu sgiliau hanfodol, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a gallu digidol. Fe wnaethant hefyd drafod yr angen i gryfhau llwybrau dysgu modiwlaidd a hyblyg, a sicrhau dilyniant â chymorth i gymwysterau lefel uwch. Yn ogystal, pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd cysoni darpariaeth addysg bellach ac uwch ag anghenion y farchnad lafur ranbarthol a chynnal llwybrau clir drwy brentisiaethau a rhaglenni lefel gradd.

**AS4**

Cafodd yr amcan hwn ei nodi fel blaenoriaeth uchel gan y sector preifat, sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, a sawl corff cyhoeddus. Nododd yr ymatebwyr bwysigrwydd darparu hyfforddiant sy'n cael ei gynllunio ar y cyd â chyflogwyr ac sy'n ymateb i wybodaeth ranbarthol am y farchnad lafur. Fe wnaethant hefyd nodi bod angen sefydlu llwybrau clir i sectorau twf allweddol, gan gynnwys ynni gwyrdd, ynni adnewyddadwy ar y môr, gweithgynhyrchu uwch, diwydiannau digidol a data, adeiladu ac ôl-osod, iechyd a gofal cymdeithasol, a'r diwydiannau creadigol. Yn ogystal, trafododd yr ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn gallu manteisio ar y cyfleoedd hyn.

Adborth i'r Ymgynghoriad: Dadansoddiad sectoraidd

## Unigolion

Gan amlaf, rhoddodd ymatebwyr unigol flaenoriaeth i AS3, yn aml ochr yn ochr ag AS1. Nododd eu cyflwyniadau bwysigrwydd canolog sgiliau sylfaenol, meithrin hyder a hyfforddiant sy'n ymarferol ac yn hygyrch - yn enwedig i bobl dros 25 oed ac i'r rhai hynny sydd wedi bod yn bell o'r farchnad lafur am gyfnodau estynedig. Dywedodd llawer fod angen i unigolion sydd wedi bod yn ddi-waith am amser hir gael cymorth parhaus a dwys, fel arfer, i ailadeiladu hyder a galluoedd craidd.

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at natur anweithgarwch economaidd sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn ac yn aml-genhedlaeth. Fel y dywedodd un ymatebydd, "Mae llawer o bobl dros 25 oed yn rhan o broblem gymdeithasol sy'n aml-genhedlaeth... mae meithrin hunan-barch yn dasg anodd." Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod sgiliau bywyd - fel prydlondeb, cyfathrebu a deall disgwyliadau'r gweithle - yn sylfaen hanfodol ar gyfer cynnydd. Adlewyrchwyd hyn mewn sylwadau a oedd yn cynnwys: "Mae angen i'r rhai sydd anoddaf eu cyrraedd ddatblygu sgiliau bywyd fel pwysigrwydd cyrraedd y gwaith mewn pryd, yn lân, yn hyderus... dyma'r cam cyntaf tuag at wella llesiant a datblygu gyrfa."

Cyfeiriwyd yn gyson at gyfyngiadau trafnidiaeth, ynysu cymdeithasol a heriau iechyd meddwl fel rhwystrau sy'n cyfyngu ar allu unigolion i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Trafododd sawl un o'r ymatebwyr yr angen am anogaeth gynnar, gweithgarwch cyfoethogi ac amgylcheddau dysgu amgen, gan nodi bod cefnogaeth o'r fath yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o ailadeiladu hyder, dyheadau a pharodrwydd ar gyfer gwaith.

## Y Sector Preifat

Gan amlaf, rhoddodd ymatebwyr o'r sector preifat flaenoriaeth i AS4, gan nodi'r angen am ddarpariaeth sgiliau sy'n cael ei llywio gan gyflogwyr ac sy'n berthnasol yn rhanbarthol ac sy'n adlewyrchu swyddi gwag go iawn yn uniongyrchol - yn enwedig yn y sectorau digidol, seiber, deallusrwydd artiffisial, data a sectorau twf eraill. Mynegwyd cefnogaeth gref gan ymatebwyr i gyfateb llwybrau hyfforddiant a sgiliau'n agos i alw'r farchnad lafur. Thema a gododd dro ar ôl tro oedd bod yn rhaid i gyflogwyr siapio'r ddarpariaeth, gydag un cyfrannwr yn dweud: "Rhaid i'r ddarpariaeth sgiliau gael ei

harwain gan anghenion busnes a blaenoriaethau sector rhanbarthol yn hytrach na thargedau a osodir yn ganolog."

Soniodd ymatebwyr o'r sector preifat hefyd am bwysigrwydd llwybrau integredig sy'n mynd i'r afael â nifer o rwystrau croestoriadol. Gan adlewyrchu hyn, nododd un cyflwyniad: "Dylid cydgysylltu cymorth cyflogaeth, iechyd, gofal plant, trafnidiaeth a mynediad digidol er mwyn i unigolion allu goresgyn nifer o rwystrau ar yr un pryd."

Roedd yr ymatebion yn trafod prinder o ran rolau digidol a thechnegol, gan ddisgrifio hyn fel cyfyngiad sylweddol ar gynhyrchiant a thwf. Fel nododd un ymatebydd, "Mae Cymru'n wynebu prinder parhaus o ran rolau seiber, meddalwedd, data a thechnoleg sy'n dod i'r amlwg." Dywedodd rhai ymatebwyr fod y bylchau hyn yn cyfyngu'n uniongyrchol ar ddatblygu busnes ac roeddent yn croesawu darpariaeth sy'n defnyddio piblinellau talent amrywiol, gan gynnwys dysgwyr annhraddodiadol, pobl sy'n newid gyrfa, ac unigolion y nodir eu doniau ymarferol drwy ymgysylltu â chyflogwyr.

**Y Trydydd Sector**

Yn gyffredinol, rhoddodd ymatebwyr o'r trydydd sector flaenoriaeth i AS1, gan nodi pwysigrwydd cymorth dwys sy'n ystyriol o drawma ac sy'n seiliedig ar berthynas i unigolion sy'n wynebu rhwystrau cymhleth a chroestoriadol. Fe wnaethant hefyd nodi rôl hanfodol sefydliadau sydd wedi'u gwreiddio yn y gymuned o ran ymgysylltu â phobl nad ydynt efallai'n barod eto i ymuno â darpariaeth prif ffrwd. Trafododd ymatebwyr dro ar ôl tro fod angen cymorth cyfannol, hirdymor a pherthnasoedd dibynadwy ar unigolion yn aml i gynnal cynnydd, ac adlewyrchir hyn mewn sylwadau fel: "Mae cymorth cofleidiol yn hanfodol - iechyd meddwl, trafnidiaeth, bwyd, gofal plant, mentora - nid opsiwn ychwanegol dewisol."

Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod angen llwybrau personol a hyblyg ar gyfer pobl ifanc, pobl anabl, gofalwyr ac unigolion sydd â chyflyrau iechyd hirdymor, gan nodi "dylai pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth... fod yn grŵp blaenoriaeth sydd wedi'i nodi'n glir." Fe wnaethon nhw ddisgrifio gwirfoddoli, ymgysylltu â'r gymuned a chefnogi pontio fel rhannau annatod o daith effeithiol o ran cyflogadwyedd yn hytrach na gweithgarwch atodol neu ddewisol. Dywedodd llawer fod dod â chymorth i ben yn sydyn yn gallu achosi

anawsterau sylweddol, a gall “.... wneud y gwahaniaeth rhwng person ifanc yn symud ymlaen neu’n rhoi’r gorau iddi.”

**Sector Cyhoeddus**

Gan amlaf, rhoddodd sefydliadau’r sector cyhoeddus flaenoriaeth i AS3 ac AS4, gan nodi pwysigrwydd cysoni’r ddarpariaeth sgiliau â’r galw gan gyflogwyr a strategaethau economaidd rhanbarthol. Dywedodd yr ymatebwyr fod angen ehangu sylfaen sgiliau lefel uwch Cymru i fodloni gofynion y farchnad lafur yn y dyfodol a mynd i’r afael â bylchau sy’n dod i’r amlwg. Thema a gododd dro ar ôl tro oedd y brys i gryfhau sgiliau uwch, gydag un cyfrannwr yn nodi “Mae Cymru’n wynebu bwlch sgiliau lefel uchel sylweddol... bygythiad i dwf cynhyrchiant yn yr hirdymor.”

Trafododd ymatebwyr o’r sector cyhoeddus hefyd werth llwybrau cynnydd hyblyg a hygyrch, gan gynnwys prentisiaethau gradd, dysgu modiwlaidd a darpariaeth seiliedig ar waith. Fel yr eglurodd un ymatebydd, “Mae prentisiaethau gradd o bwysigrwydd strategol... maen nhw’n ehangu mynediad at sgiliau lefel uwch ac yn cyfateb i anghenion y diwydiant.” Nododd Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch fod cyd-ddylunio gan gyflogwyr yn hanfodol er mwyn sicrhau perthnasedd, a nodwyd pwysigrwydd modelau integredig sy’n cysoni systemau sgiliau â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol.

**Awdurdodau Lleol**

Mynegodd awdurdodau lleol gefnogaeth i’r pedwar amcan, er mai AS1 ac AS3 cafodd eu blaenoriaethu amlaf. Nododd eu cyflwyniadau arwyddocâd ymyrryd yn gynnar ac atal NEET - yn enwedig i bobl ifanc o dan 16 oed - fel ffordd o leihau ymddieithrio hirdymor oddi wrth addysg a chyflogaeth. Dywedodd yr ymatebwyr yn gyson fod trafnidiaeth, mynediad digidol a gofal plant yn parhau i fod yn rhwystrau mawr rhag cyfranogi, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ôl-ddiwydiannol. Cafodd hyn ei gyfleu mewn sylwadau fel: “Mae cynllunio sgiliau a thrafnidiaeth mewn ffordd gydgysylltiedig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn hanfodol.”

Nododd awdurdodau lleol hefyd bwysigrwydd modelau cyflawni yn y gymuned, sydd wedi’u cynllunio'n lleol ac sy’n ymateb i'r anghenion a'r cyfleoedd penodol yn eu hardaloedd. Fe wnaethant drafod rôl allweddol y trydydd sector yn y cyd-destun hwn gan nodi: “Dylid cydnabod arbenigedd y Trydydd Sector o ran cefnogi’r bobl sydd

bellaf oddi wrth y farchnad lafur.” Dywedodd nifer o’r ymatebwyr fod yn rhaid i’r ddarpariaeth sgiliau fod yn seiliedig ar alw gwirioneddol yn y farchnad lafur, gan ddweud “Rhaid i’r buddsoddiad mewn sgiliau gyfateb i gyfleoedd swyddi lleol go iawn.”

Codwyd pryderon ynghylch y posibilrwydd o golli cymorth ataliol i bobl ifanc dan 16 oed, gyda llawer o awdurdodau lleol yn trafod y ffaith bod angen hyblygrwydd mewn cyllid refeniw i gynnal modelau lleol effeithiol. Er bod AS4 yn cael ei gydnabod yn bwysig ar gyfer cefnogi sectorau sy’n arwyddocaol yn rhanbarthol, nododd ymatebwyr fod ei lwyddiant yn dibynnu ar aliniad agos â gwybodaeth am y farchnad lafur leol a thystiolaeth glir o’r galw.

<u>Adborth i’r Ymgynghoriad: Casgliad</u>

Roedd yr ymatebion i’r cwestiwn hwn yn nodi’n glir na ellir ystyried sgiliau a chyflogadwyedd ar eu pen eu hunain. Disgrifiodd yr ymatebwyr sut mae rhwystrau fel diffyg hyder, cyfyngiadau trafnidiaeth, heriau iechyd meddwl, a mynediad digidol cyfyngedig yn parhau i atal llawer o unigolion rhag manteisio ar gyfleoedd hyfforddi neu waith. Thema a gododd dro ar ôl tro oedd yr angen am gymorth sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy’n seiliedig ar berthynas ac sydd ar gael yn lleol ac sy’n meithrin hyder a sgiliau sylfaenol fel cerrig camu tuag at gynnydd.

**Seilwaith Gwyrdd ac effeithlonrwydd ynni**

<u>Bwriad Polisi</u>

Ein nod yw cefnogi newid teg i economi ddi-garbon drwy dargedu methiannau yn y farchnad, lleihau allyriadau a thlodi tanwydd, a sicrhau bod cymunedau difreintiedig a diwydiannau yr effeithir arnynt yn cael eu diogelu drwy gydol y broses.

<u>Yr Amcanion Strategol a Gynigir</u>

AS1. Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a charbon isel, yn enwedig pan ei fod dan berchnogaeth leol ac yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau rhanbarthol.

AS2. Cefnogi seilwaith trafnidiaeth a chysylltedd digidol carbon isel lle mae'n cefnogi blaenoriaethau twf rhanbarthol.

AS3. Cefnogi buddsoddiad cyfalaf, lle mae diffyg yn y farchnad, i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni ym maes tai.

**Cwestiwn 6: Pa rai o blith yr amcanion strategol hyn fyddech chi'n eu blaenoriaethu i yrru cyfleoedd o ynni carbon isel a chysylltedd ar gyfer twf a lleihau anghydraddoldebau?**

Adborth i'r Ymgynghoriad: Ymatebion fesul Amcan Strategol

**AS1**

Cafodd yr amcan hwn gefnogaeth gref ar draws y trydydd sector, cyrff cyhoeddus, diwydiant a llawer o awdurdodau lleol. Fodd bynnag, roedd y farn ymysg unigolion yn gymysg, gyda lleiafrif nodedig yn gwrthwynebu buddsoddi mewn carbon isel yn gyfan gwbl. Mynegodd yr ymatebwyr bwysigrwydd ynni sy'n eiddo i'r gymuned neu dan berchnogaeth leol, gan dynnu sylw at ei rôl o ran cadw gwerth o fewn cymunedau, cynhyrchu ffrydiau incwm hirdymor, a chynyddu i ba raddau y mae'r cyhoedd yn derbyn seilwaith newydd. Fe wnaethant hefyd nodi rhwystrau mawr o ran cyflawni, yn enwedig cyfyngiadau capasiti grid, amserlenni datblygu hir, a'r angen am gymorth dichonoldeb arbenigol, cyllid refeniw a mecanweithiau manteision cymunedol cliriach. Ar draws sectorau, trafododd yr ymatebwyr gyfleoedd mewn gwynt ar y môr, ynni'r môr, solar, meicrogridiau a systemau ynni lleol, gan nodi bod cyflawni effeithiol yn gofyn am gysoni â Chynlluniau Ynni Ardal Leol, seilwaith porthladdoedd strategol a llwybrau sero net ehangach.

**AS2**

Er na nodwyd yr amcan hwn fel y flaenoriaeth uchaf, roedd ymatebwyr o'r farn ei fod yn hanfodol er mwyn lleihau anghydraddoldebau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol. Nododd unigolion, sefydliadau trydydd sector ac awdurdodau lleol fod bylchau parhaus mewn trafnidiaeth gyhoeddus, llwybrau teithio llesol, gwefru cerbydau trydan, a mynediad digidol dibynadwy, sydd i gyd yn cyfyngu ar fynediad at swyddi, hyfforddiant a gwasanaethau hanfodol. Mynegodd yr ymatebwyr hefyd fod angen trin cysylltedd digidol fel seilwaith economaidd craidd, gan fynd i'r afael â materion cost, dibynadwyedd a "mannau digyswllt" gwledig. Yn gyffredinol, roedd AS2

yn cael ei ystyried yn alluogwr hollbwysig ar gyfer cyfranogiad, twf busnes a thegwch rhanbarthol, hyd yn oed pan nad oedd yn cael ei restru'n gyntaf.

**Amcan Strategol 3**

Cafodd yr amcan hwn ei flaenoriaethu gan amlaf ar draws pob sector sefydliadol, yn enwedig cyrff iechyd y cyhoedd, sefydliadau'r trydydd sector ac awdurdodau lleol. Mynegodd yr ymatebwyr bwysigrwydd canolog mynd i'r afael â thlodi tanwydd, gan nodi tystiolaeth gref sy'n cysylltu cartrefi oer ac aneffeithlon ag iechyd corfforol a meddyliol gwael, ymgysylltiad addysgol isel a chaledi ariannol. Dywedodd llawer ohonynt mai AS3 yw'r un mwyaf cyraeddadwy o fewn y cyfnod cyllido o dair blynedd. Galwodd ymatebwyr am ddull gweithredu adeiladwaith yn gyntaf, ynghyd â systemau gwresogi carbon isel, cymorth cynghori, rhaglenni newid ymddygiad, a buddsoddi mewn cadwyni cyflenwi lleol a sgiliau gwyrdd. Fe wnaethant nodi bod gwella effeithlonrwydd ynni yn cael effaith gymdeithasol ar unwaith ac yn yr hirdymor, yn lleihau anghydraddoldebau, yn cefnogi twf busnesau bach a chanolig, ac yn creu cyfleoedd cyflogaeth parhaus ar draws y sectorau adeiladu ac ôl-osod.

<u>Adborth i'r Ymgynghoriad: Dadansoddiad sectoraidd</u>

**Ymatebwyr Unigol**

Roedd barn ymatebwyr unigol yn amrywiol, gan fynd o gefnogaeth gref am well cysylltedd digidol a thrafnidiaeth gynaliadwy i wrthwynebiad clir i'r newid gwyrdd yn ei gyfanrwydd. Roedd llawer a oedd yn cefnogi'r amcanion yn mynegi'r angen am lwybrau teithio llesol mwy diogel, opsiynau eraill yn lle defnyddio ceir preifat, a gwelliannau yn y gymuned sy'n lleihau arwahanrwydd ac yn ehangu mynediad at waith a gwasanaethau. Trafododd eraill faterion yn ymwneud â darpariaeth annibynadwy o ran gwasanaeth band eang a ffonau symudol, gan adleisio sylwadau fel: “Dylid rhoi blaenoriaeth i amcanion sy'n gwella dibynadwyedd, fforddiadwyedd a gwerth seilwaith hanfodol.”

Gwnaeth leiafrif nodedig wrthod y tri amcan, gan herio'r rhesymeg dros bontio i garbon isel neu gan alw am fuddsoddiad mewn dewisiadau amgen sy'n seiliedig ar danwydd ffosil. Mae enghreifftiau'n cynnwys datganiadau fel: “Nid oes problem werdd, nid oes argyfwng hinsawdd, ac mae sero net yn dwyll”. Mae'r ymatebion hyn yn tanlinellu'r

angen i barhau i ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfathrebu'n glir ynghylch manteision, costau ac effeithiau lleol yr amcanion arfaethedig.

**Y Sector Preifat**

Yn gyffredinol, roedd sefydliadau'r sector preifat yn cefnogi cyfeiriad yr amcanion, gyda llawer yn nodi rôl trafnidiaeth carbon isel a gwell cysylltedd digidol o ran galluogi cynhyrchiant, buddsoddiad a chystadleurwydd busnesau. Pwysleisiodd nifer o fusnesau bwysigrwydd cysylltedd dibynadwy a chyflym, gan adlewyrchu barn fel: "Dylid trin cysylltedd digidol fel seilwaith sylfaenol... sy'n hanfodol ar gyfer cystadleurwydd, yn enwedig mewn rhanbarthau gwledig ac arfordirol." Nododd yr ymatebwyr hefyd fod angen adeiladau masnachol sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, mynediad at gyllid ar gyfer datgarboneiddio, a chymorth i ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol ar gyfer ôl-osod a thechnolegau adnewyddadwy.

Rhoddodd rhai cyflwyniadau sector preifat flaenoriaeth i AS1, yn enwedig lle gallai datblygu ynni adnewyddadwy gefnogi datgarboneiddio diwydiannol, arloesi a thwf economaidd hirdymor. Fel y dywedodd un ymatebydd, dylid ystyried ynni adnewyddadwy fel cyfle economaidd craidd: "Dylid datblygu cadwyni cyflenwi cryf yng Nghymru ar gyfer gweithgarwch ôl-osod ac ynni carbon isel... gan sicrhau bod cwmnïau lleol yn gallu cymryd rhan a chadw mwy o'r gwerth sy'n cael ei greu yng Nghymru." Mynegodd eraill yr angen am fuddsoddiad cytbwys ar draws y tri amcan, gan nodi'r rhyngweithio agos rhwng seilwaith ynni, piblinellau sgiliau a gwydnwch busnes.

Cyfeiriodd llawer o ymatebwyr at bwysigrwydd llwybrau ymarferol a fforddiadwy i fusnesau bach a chanolig fabwysiadu technolegau carbon isel, gyda rhai'n nodi na ddylai cymorth roi gormod o faich ar gwmnïau llai: "Mae angen cynllunio buddsoddi fel bod sefydliadau llai, busnesau gwledig a chymunedau â chapasiti is yn gallu mewn gwirionedd cymryd rhan ac elwa." Mae'r safbwyntiau hyn yn atgyfnerthu'r angen am gymorth cymesur wedi'i dargedu sy'n galluogi busnesau o bob maint i addasu a ffynnu mewn economi carbon isel.

**Y Trydydd Sector**

Roedd sefydliadau trydydd sector yn gefnogol iawn i AS2 ac AS3, yn enwedig mewn perthynas â mynd i'r afael ag allgáu digidol a thrafnidiaeth, lleihau tlodi tanwydd a

gwella canlyniadau i grwpiau difreintiedig. Nododd ymatebwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc, aelwydydd incwm isel a chymunedau gwledig effeithiau cyfansawdd tai o ansawdd gwael, trafnidiaeth annigonol ac allgáu digidol ar iechyd, llesiant a chyfranogiad economaidd.

Mynegodd llawer o gyrff trydydd sector gefnogaeth hefyd i AS1, yn enwedig lle'r oedd cynlluniau ynni adnewyddadwy yn cynnig budd cymunedol clir neu gyfleoedd o ran perchnogaeth. Fe wnaethant drafod potensial modelau ynni lleol i ddarparu gwerth hirdymor ac ailfuddsoddi, "Mae ynni sy'n eiddo i'r gymuned yn cadw cyfoeth yn lleol, yn lleihau tlodi tanwydd ac yn creu ffrydiau cyllido hirdymor er budd y gymuned" ond nodwyd rhwystrau fel prosesau cynllunio, cyfyngiadau o ran y grid a'r angen am gyngor arbenigol.

Ar draws y cyflwyniadau, mynegodd sefydliadau'r trydydd sector fod yn rhaid i degwch a hygyrchedd fod wrth galon y pontio i'r GTLl.  Dywedodd llawer, heb gyllid refeniw, na fyddai llawer o aelwydydd difreintiedig yn gallu cael mynediad at raglenni ôl-osod, adnoddau digidol na seilwaith teithio llesol, hyd yn oed lle mae buddsoddiad cyfalaf ar gael.

**Sector Cyhoeddus**

Mynegodd cyrff yn y sector cyhoeddus - yn enwedig y rhai hynny ym maes iechyd, addysg a llywodraeth leol - gefnogaeth gytbwys i'r tri amcan ond yn aml blaenoriaethwyd AS3 oherwydd ei gysylltiadau uniongyrchol ag iechyd y cyhoedd, anghydraddoldebau a gwydnwch aelwydydd. Nododd nifer o'r ymatebwyr y dystiolaeth gref sy'n cysylltu cartrefi oer â salwch anadlol, heriau iechyd meddwl ac amddifadedd ehangach, gan adlewyrchu'r farn bod "Gwella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi... yn cynnig manteision uniongyrchol a hirdymor i'r aelwydydd rydym yn gweithio gyda nhw." Soniodd ymatebwyr o'r sector cyhoeddus yn aml am fanteision economaidd ac iechyd deuol rhaglenni effeithlonrwydd ynni o ran lleihau anghydraddoldebau a chefnogi poblogaethau agored i niwed.

Tanlinellodd yr ymatebwyr hefyd bwysigrwydd AS2 o ran lleihau tlodi trafnidiaeth a gwella mynediad digidol, gan ddisgrifio'r ddau fel pethau sy'n hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus a mynediad teg at gyfleoedd.. Trafododd llawer yr heriau a wynebir gan gymunedau gwledig a chymunedau ar ynysoedd sydd â thrafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith digidol cyfyngedig. Cydnabuwyd bod AS1 yn sbardun twf

hirdymor, yn enwedig lle mae cynlluniau ynni adnewyddadwy yn gyson â strategaethau ynni rhanbarthol, ond nododd nifer o'r ymatebwyr bryderon, er bod cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn hanfodol, fod yn rhaid i seilwaith galluogi gadw i fyny: "Mae capasiti grid yn parhau i fod yn gyfyngiad hollbwysig y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef."

**Awdurdod Lleol**

Roedd ymatebion awdurdodau lleol yn adlewyrchu amrywiaeth cyd-destunau lleol ledled Cymru. Rhoddodd llawer o awdurdodau flaenoriaeth i AS2 ac AS3, gan gyfeirio at rwystrau trafnidiaeth a chysylltedd digidol mewn cymunedau gwledig, lefelau uchel o dlodi tanwydd a pharodrwydd awdurdodau lleol i gyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni ar raddfa fawr. Pwysleisiodd sawl un mai AS3 oedd yn cynnig y fantais fwyaf uniongyrchol a mesuradwy i drigolion lleol yn y cyfnod cyllido tair blynedd, yn enwedig lle mae amodau tai yn wael a biliau ynni yn uchel. Nododd un awdurdod lleol fod "Effeithlonrwydd ynni a mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn hanfodol - mae cartrefi cynhesach yn lleihau problemau iechyd ac yn creu arbedion hirdymor."

Cefnogodd awdurdodau eraill AS1 ac AS3 gyda'i gilydd, gan dynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned a rôl cynlluniau ynni ardaloedd lleol o ran arwain buddsoddiad. Nododd rhai ymatebwyr fod capasiti'r grid, refeniw ar gyfer gwasanaethau cynghori a datblygu'r gadwyn gyflenwi yn alluogwyr hollbwysig, yn enwedig mewn meysydd sy'n ceisio cynyddu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy. Pwysleisiodd rhai awdurdodau bwysigrwydd strategol porthladdoedd ac asedau arfordirol ar gyfer y defnydd o ynni adnewyddadwy ar y môr, gan fod yn gydnaws â safbwyntiau fel: "Dylai ynni adnewyddadwy ar y môr gael ei gydnabod yn benodol fel clwstwr blaenoriaeth."

Rhybuddiodd rhai o'r cyflwyniadau y gallai rhai elfennau o AS2 - yn enwedig seilwaith trafnidiaeth mawr - gael eu cyflawni'n well drwy raglenni eraill ac fe wnaethant annog y GTLI i ganolbwyntio yn lle hynny ar ymyriadau y gellir eu cyflawni'n lleol, sy'n cael effaith fawr ac sy'n ategu cynlluniau strategol ehangach. Gwnaeth llawer o awdurdodau lleol annog aliniad agosach rhwng y Gronfa a strategaethau presennol sy'n seiliedig ar leoedd, gan gynnwys cynlluniau ynni ardaloedd lleol, cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol a fframweithiau economaidd rhanbarthol.

Adborth i'r Ymgynghoriad: Casgliad

Roedd yr adborth yn tynnu sylw at y rhyngweithio agos rhwng pontio i garbon isel, cysylltedd digidol, a chyfleoedd economaidd. Pwysleisiodd ymatebwyr fod yn rhaid i'r cynnydd tuag at sero net barhau i fod yn seiliedig ar realiti ymarferol - o "fannau di-gyswllt" digidol gwledig a chyfyngiadau trafnidiaeth i fforddiadwyedd a dibynadwyedd seilwaith hanfodol. Roedd cydnabyddiaeth gref fod yn rhaid i fanteision y trawsnewid carbon isel fod yn hygyrch i bob cymuned, a bod angen i sefydliadau llai, aelwydydd gwledig ac ardaloedd sydd â chapasiti is gael cymorth wedi'i deilwra i gymryd rhan lawn. Ar yr un pryd, roedd ymatebwyr yn gweld potensial sylweddol ar gyfer ynni sydd dan berchnogaeth leol, llwybrau sgiliau gwyrdd ac atebion wedi'u gwreiddio yn y gymuned i sbarduno twf cynhwysol.

**Seilwaith lleol yn sbarduno economïau rhanbarthol**

Bwriad Polisi

Ein nod yw buddsoddi mewn seilwaith lleol sy'n cefnogi cymunedau gwydn sydd â chysylltiadau da ac sy'n galluogi pawb i gymryd rhan lawn yn yr economi.

Yr Amcanion Strategol a Gynigir

AS1. Datblygu safleoedd ac adeiladau allweddol sy'n bwysig ar gyfer twf rhanbarthol ac mewn sectorau twf sydd wedi'u blaenoriaethu'n rhanbarthol lle mae diffyg yn y farchnad.

AS2. Gwella seilwaith economaidd lleol, gan gynnwys trafnidiaeth, cysylltedd digidol, ac asedau cymunedol i gefnogi cymunedau cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig, arfordirol, dinesig a threfol.

AS3. Buddsoddi mewn asedau treftadaeth, twristiaeth neu ddiwylliannol wedi'u blaenoriaethu i gefnogi uchelgeisiau twf rhanbarthol a chyfleoedd lleol.

**Cwestiwn 7: Pa un o'r amcanion strategol hyn fyddech chi’n blaenoriaethu i dargedu buddsoddiad mewn seilwaith lleol i yrru economïau rhanbarthol?**

Adborth i’r Ymgynghoriad: Ymatebion fesul Amcan Strategol

**AS1**

Roedd yr ymatebion a oedd yn ymwneud â’r amcan hwn yn pwysleisio’r angen i gyflwyno eiddo masnachol, tir cyflogaeth a safleoedd sy’n barod i’w datblygu sy’n gallu cefnogi twf rhanbarthol. Ystyriwyd bod yr amcan hwn yn hanfodol er mwyn mynd i’r afael â rhwystrau strwythurol i dwf a galluogi datblygu economaidd sy’n seiliedig ar leoedd.

**AS2**

Daeth yr amcan hwn i’r amlwg fel yr un a flaenoriaethwyd fwyaf cyson yn y thema hon ym mhob sector. Disgrifiodd ymatebwyr drafnidiaeth, cysylltedd digidol ac asedau cymunedol hygyrch fel y seilwaith sylfaenol y mae gweithgarwch economaidd yn dibynnu arno. Pwysleisiodd ymatebwyr fod trafnidiaeth ddibynadwy, llwybrau teithio llesol diogel a chysylltedd digidol cryf yn hanfodol er mwyn cael mynediad at swyddi, gwasanaethau ac addysg. Roeddent hefyd yn nodi pwysigrwydd mannau a chyfleusterau cymunedol hygyrch sy’n galluogi pobl i gymryd rhan, yn enwedig i’r rheini sy’n wynebu rhwystrau. Roedd seilwaith gwell wedi’i gysylltu’n eang ag iechyd gwell, llai o anghydraddoldebau, gwydnwch cymunedol cryfach a chefnogaeth i greu lleoedd, mynediad gwledig a bywiogrwydd canol trefi. Yn gyffredinol, disgrifiodd ymatebwyr yr amcan hwn fel galluogwr hollbwysig ar gyfer twf sy’n deg, yn gynhwysol ac yn ymatebol yn rhanbarthol.

**AS3**

Er bod blaenoriaethu’n amrywio yn ôl rhanbarth, roedd yr ymatebion yn cadarnhau cyfraniad treftadaeth, twristiaeth ac asedau diwylliannol at strategaethau economaidd lleol a hunaniaeth gymunedol. Roedd awdurdodau lleol yn ystyried yr amcan hwn yn arbennig o bwysig lle mae asedau o’r fath yn sail i adfywio neu dwf sy’n cael ei lywio gan ymwelwyr, gan nodi y dylid adlewyrchu eu harwyddocâd yn gliriach yn y Cynllun Buddsoddi. Nododd ymatebwyr o’r trydydd sector werth mannau cymunedol a dysgu amlddefnydd fel angorau ar gyfer cynhwysiant ac ymgysylltu lleol, ac roedd sefydliadau’r sector cyhoeddus yn cydnabod y gall buddsoddi mewn asedau

diwylliannol a threftadaeth wella hygyrchedd, cryfhau balchder mewn lle a chreu manteision cymdeithasol ehangach. Mewn sawl ardal, ystyriwyd bod yr amcan hwn yn ategu'r agenda seilwaith ehangach, gan gyfrannu at economïau lleol cynaliadwy pan gaiff ei gefnogi gan ddulliau cyflawni hyblyg sy'n seiliedig ar wybodaeth leol.

Adborth i'r Ymgynghoriad: Dadansoddiad sectoraidd

**Unigolion**

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr unigol wedi blaenoriaethu AS2, gan dynnu sylw at y rhwystrau ymarferol y mae pobl yn eu hwynebu mewn bywyd bob dydd. Roedd eu cyflwyniadau'n nodi sut mae trafnidiaeth gyfyngedig neu annibynadwy, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a lled-wledig, yn cyfyngu ar fynediad at waith, gwasanaethau a chyfleoedd. Nododd yr ymatebwyr yn aml fod angen llwybrau lleol gwell, gan gynnwys llwybrau cerdded, olwyno a beicio mwy diogel i hybiau trafnidiaeth, a phwysleisiwyd bod gwell ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol er mwyn galluogi pobl i deithio i'r gwaith a chymryd rhan lawn yn eu cymunedau. Fel y dywedodd un unigolyn, "Byddwn yn blaenoriaethu... gwella llwybrau ar gyfer cerdded, olwyno a beicio o fewn a rhwng cymunedau ac i ganolfannau trafnidiaeth gyhoeddus" oherwydd bod hyn yn dod â "manteision enfawr... o ran hygyrchedd, iechyd ac amcanion amgylcheddol." Cyfleodd unigolyn arall y pwyslais o ddydd i ddydd yn gryno: "Dylid rhoi blaenoriaeth i seilwaith y mae pobl a busnesau yn ei ddefnyddio mewn gwirionedd o ddydd i ddydd... gofod busnes fforddiadwy, cyfleusterau canol trefi, trafnidiaeth leol ddibynadwy a gwasanaethau sylfaenol."

Disgrifiwyd cysylltedd digidol hefyd fel rhywbeth sylfaenol, gydag unigolion yn nodi bod bylchau yn y ddarpariaeth o ran gwasanaeth band eang a ffonau symudol yn parhau i gyfyngu ar fynediad at wasanaethau, dysgu a chyflogaeth. Ochr yn ochr â hyn, soniodd yr ymatebwyr am werth asedau cymunedol hygyrch sy'n cefnogi cynhwysiant ac yn darparu mannau ymarferol ar gyfer gweithgarwch lleol. Roedd eu cyfraniadau'n fframio seilwaith yn gyson o ran manteision gweladwy, bob dydd a'r gallu i gael mynediad dibynadwy a fforddiadwy at gyfleoedd. Mae hyn yn cael ei adleisio mewn sylwadau fel "Mae cysylltedd digidol yn hanfodol ar gyfer dyfodol llewyrchus."

**Y Sector Preifat**

Rhoddodd ymatebwyr o'r sector preifat flaenoriaeth i AS1 ac AS2 yn bennaf. Fe wnaethant bwysleisio "Adeiladau masnachol a safleoedd cyflogaeth sy'n barod i'w datblygu... sy'n hanfodol i dwf rhanbarthol," a rhybuddio, heb fuddsoddiad cyhoeddus wedi'i dargedu i ddatgloi tir wedi'i atal neu wedi'i halogi, y byddai methiannau yn y farchnad yn parhau i gyfyngu ar dwf. Dywedodd ymatebwyr hefyd fod trafnidiaeth ddibynadwy a chysylltedd digidol cadarn yn alluogwyr hollbwysig ar gyfer symudedd llafur a chynhyrchiant busnesau. Galwodd sawl un am i benderfyniadau gael eu pennu'n lleol, gan nodi, "Dylai blaenoriaethau seilwaith lleol gael eu pennu eto gan y rhanbarthau eu hunain...dylai cymorth ddilyn y cyfle economaidd ar lawr gwlad, nid cyfleustra gweinyddol."

Ar ben hynny, roeddent yn tanlinellu gwerth economaidd clystyrau sectoraidd ac ecosystemau arloesi, gan gynnwys porthladdoedd, cyfleusterau adnewyddadwy ar y môr, a chanolfannau arloesi digidol. Nododd rhai ymatebwyr, heb ddull integredig sy'n mynd i'r afael â safleoedd, cysylltedd a sgiliau, y byddai bylchau strwythurol yn parhau ac yn dal i gyfyngu ar dwf rhanbarthol.

**Y Trydydd Sector**

Rhoddodd ymatebwyr o'r trydydd sector flaenoriaeth lethol i AS2, gydag AS1 hefyd yn derbyn cefnogaeth sylweddol. Roeddent yn pwysleisio pwysigrwydd canolog seilwaith cymunedol a chymdeithasol: "Mae buddsoddi mewn mannau cymunedol a dysgu hyblyg, amlddefnydd... yn hanfodol," gan ychwanegu y gall y cyfleusterau hyn gynnal cyrsiau achrededig, dysgu anffurfiol, mentora ac ymgysylltu â'r diwydiant o dan yr un to.

Nododd yr ymatebwyr hefyd yr angen i fynd i'r afael ag allgáu digidol, gwella mynediad at drafnidiaeth fforddiadwy, a sicrhau bod mannau diogel a chefnogol ar gael i bobl ifanc a grwpiau agored i niwed. Ar ben hynny, fe wnaethant nodi bod cyllid refeniw parhaus a buddsoddiad hirdymor yn hanfodol i gynnal gweithgarwch sy'n cael ei arwain gan y gymuned a sicrhau bod manteision seilwaith newydd yn hygyrch ac yn deg, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol lle mae "seilwaith economaidd yn allweddol ac mae diffyg seilwaith o'r fath yn rhwystr i gydweithio, cyfathrebu ac arloesi."

**Sector Cyhoeddus**

Mynegodd cyrff y sector cyhoeddus gefnogaeth gref i AS2, gan gydnabod bod AS1 yr un mor bwysig ar gyfer datblygu rhanbarthol hirdymor. Fe wnaethant nodi cyfraniad buddsoddi mewn seilwaith at wella canlyniadau iechyd, lleihau anghydraddoldebau a chryfhau gwydnwch cymunedol. Pwysleisiodd sawl un yr angen i ganolbwyntio adnoddau lle mae enillion cymdeithasol ar eu huchaf: “Dylid blaenoriaethu buddsoddi yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol, lle gellir cael yr effaith fwyaf ar iechyd.”

Soniodd yr ymatebwyr hefyd am bwysigrwydd sicrhau bod seilwaith newydd yn gynaliadwy ac yn gallu gwrthsefyll yr hinsawdd, a nodwyd gwerth gwasanaethau sydd wedi’u cydleoli a chanolfannau dysgu yn y gymuned o ran gwella hygyrchedd ac effeithiolrwydd. Nododd yr ymatebwyr fod angen amserlenni cyflawni realistig ar gyfer cynlluniau cyfalaf mawr, bod yn gyson â fframweithiau polisi ehangach ac eglurder ynghylch dibyniaethau, yn enwedig lle mae rhwydweithiau digidol a thrafnidiaeth yn croestorri. Mae’r safbwynt hwn yn eistedd ochr yn ochr â galwadau am sefydliadau angori i helpu i gynnull partneriaethau a sicrhau bod seilwaith yn cysylltu’n gydlynol â phiblinellau sgiliau a strategaethau economaidd lleol.

**Awdurdodau Lleol**

Yn gyffredinol, nododd awdurdodau lleol AS2 fel eu prif flaenoriaeth, gan bwysleisio hefyd bwysigrwydd AS1 ac, mewn rhai ardaloedd, AS3. Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen am adfywio a chreu lleoedd yng nghanol trefi, gan nodi y dylid eu mynegi’n gliriach yn yr AS. Fe wnaethant hefyd tynnu sylw at fethiannau parhaus yn y farchnad o ran cyflenwi safleoedd ac eiddo, yn enwedig yn y cymoedd, ardaloedd gwledig ac ardaloedd ôl-ddiwydiannol, ac annog dull gweithredu seiliedig ar biblinell i sicrhau bod tir cyflogaeth ar gael yn y tymor canolig. Crynhodd un safbwynt rhanbarthol y cydbwysedd yn gryno: “Dylai’r ffocws ar gyfer buddsoddi mewn... fod ar AS2... [ac] mae angen i’r rhanbarth hefyd ystyried y cyflenwad o safleoedd datblygu cyflogaeth ar gyfer y .... dyfodol. Mae AS1... yn mynd i’r afael â’r pwynt hwn.”

Ar ben hynny, roedd nifer o awdurdodau lleol yn tanlinellu arwyddocâd asedau twristiaeth a threftadaeth yn eu strategaethau economaidd lleol, a gyfrannodd at flaenoriaethu AS3 yn fwy yn y cyd-destunau hynny. Roedd rhai o’r cyflwyniadau hefyd yn nodi “Rhaid i seilwaith fod wedi’i brawfesur ar gyfer ardaloedd gwledig, yn

integredig ac yn ymatebol yn lleol er mwyn sbarduno economïau rhanbarthol cynaliadwy," gan ddadlau y bydd cyflawni sy'n benodol i leoedd yn hanfodol i sicrhau bod ymyriadau'n adlewyrchu anghenion a chyfleoedd lleol penodol. Ar draws cyflwyniadau, cyfeiriodd awdurdodau lleol at bwysigrwydd hyblygrwydd, gwneud penderfyniadau lleol, a bod yn gyson â chynlluniau sefydledig a blaenoriaethau cymunedol i sicrhau bod modd cyflawni buddsoddiadau newydd o fewn y cyfnod cyllido a datgloi manteision cyhoeddus a phreifat ehangach.

Adborth i'r Ymgynghoriad: Casgliad

Fframiodd ymatebwyr seilwaith lleol fel y llwyfan hanfodol y mae pob math arall o weithgarwch economaidd yn dibynnu arno. Ar draws sectorau, pwysleisiodd cyfranwyr fod trafnidiaeth ddibynadwy, cysylltedd digidol cadarn, asedau cymunedol hygyrch, ac adeiladau busnes addas yn rhagofynion ar gyfer gwydnwch busnes, cyfranogiad y gweithlu a chystadleurwydd rhanbarthol. Roedd y dystiolaeth yn dangos dro ar ôl tro sut mae bylchau bob dydd ymarferol mewn seilwaith - yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol - yn cyfyngu ar gyfleoedd i bobl ac i fusnesau. Roedd cefnogaeth gref i fuddsoddiad lleol, sy'n seiliedig ar le, sy'n ymateb i anghenion rhanbarthol penodol ac yn cryfhau angorau cymunedol.

Casgliad yr ymatebion i Gwestiynau 4-7

Ar draws y pedwar maes, dangosodd rhai ymatebwyr gefnogaeth gref i ddull gweithredu sy'n mynd i'r afael â rhwystrau strwythurol, yn cryfhau cyflawni lleol, ac yn galluogi pobl, busnesau a lleoedd i ffynnu gyda'i gilydd. Fe wnaethant nodi pwysigrwydd cymorth sy'n ymarferol ac yn hygyrch; buddsoddi mewn sgiliau, arloesi a seilwaith; a chymysgedd cytbwys o gyllid cyfalaf a refeniw. Er bod blaenoriaethau'n amrywio yn ôl sector, roedd barn gyffredin fod yn rhaid i dwf fod yn gynhwysol, yn seiliedig ar wybodaeth leol ac yn seiliedig ar atebion cynaliadwy hirdymor sy'n adlewyrchu anghenion amrywiol cymunedau ledled Cymru. Nid oedd consensws clir ar flaenoriaethau ar draws sectorau sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth barn ar y pwnc hwn.

## Model Pontio a Chyflawni: Crynodeb o'r Ymatebion

### Rheoli'r Broses Pontio o'r GFfG i'r GTLl yng Nghymru

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar y dull arfaethedig o reoli'r broses pontio o'r GFfG i'r GTLl yng Nghymru, gan roi sylw penodol i barhad, cyllid, llywodraethu ac anghenion sectoraidd.

Dull

Mae'r adran hon yn cyfosod cyflwyniadau'r ymatebwyr i Gwestiynau 8, 9, 10, 11, 12, 13 a 14. Mae'n adlewyrchu dadansoddiad meintiol o'r ymatebion o blaid/yn erbyn cynigion penodol, yn ogystal ag ehangder ac amrywiaeth y safbwyntiau. Lle daeth themâu trawsbynciol i'r amlwg, nodwyd y rhain.

Bwriad Polisi

Bwriad pontio o'r GFfG i'r GTLl yw cynnal parhad, osgoi tarfu a chadw'r capasiti a'r arbenigedd a gafodd eu meithrin wrth gyflawni'r GFfG, i'r graddau y bo hynny'n bosibl. Nododd ymatebwyr bwysigrwydd diogelu asedau presennol - fel perthnasoedd dibynadwy, mecanweithiau cyflawni effeithiol a rhwydweithiau lleol sydd wedi hen ennill eu plwyf - yn ystod cyfnod sy'n cael ei ystyried yn gyffredinol yn sensitif ac yn gyfnod a allai fod yn ansefydlog, lle gallai tarfu danseilio parhad a hyder rhanddeiliaid.

### Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig hwn o reoli'r newid rhwng y GFfG a'r GTLl yng Nghymru neu a oes gennych chi unrhyw farn bellach?

Adborth i'r Ymgynghoriad

Roedd cytundeb eang - er yn aml yn amodol - bod angen cyfnod pontio wedi'i reoli.

| Sector | Cytuno | Anghytuno | Dim Ymateb |
|---|---|---|---|
| Unigolyn | 5 (23.8%) | 11 (52.4%) | 5 (23.8%) |
| Y Sector Preifat | 10 (83.3%) | 1 (8.3%) | 1 (8.3%) |
| Y Trydydd Sector | 35 (55.6%) | 9 (14.3%) | 19 (30.2%) |
| Sector Cyhoeddus | 14 (53.8%) | 3 (11.5%) | 9 (34.6%) |
| Awdurdod Lleol | 13 (40.6%) | 9 (28.1%) | 10 (31.2%) |

**Tabl 2:** Dadansoddiad sectoraidd o ymatebion i Gwestiwn 8 yr ymgynghoriad ynghylch a ydynt yn cytuno â'r dull o weithredu o ran pontio o'r GFfG i'r GTLI yng Nghymru. Mae'r ganran fesul sector.

Er bod cytundeb cyffredinol â'r dull gweithredu arfaethedig, mynegodd ymatebwyr amheuon yn gyson ynghylch bylchau cyllido, llai o refeniw ar gael, a risgiau o ran cadw staff. Dywedodd llawer o ymatebwyr fod cefnogaeth i grwpiau agored i niwed yn cael ei hansefydlogi'n hawdd gan ansicrwydd neu doriadau yn y ddarpariaeth. Fel y rhybuddiodd un unigolyn, "mae seibiannau o'r fath yn helpu i gadarnhau eu cred eu bod yn ddi-nod ac yn ddibwys", gan dynnu sylw at sut gall hyd yn oed ymyriadau byr ddadwneud cynnydd i'r rhai sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur.

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn annog cyfathrebu cynnar a thryloyw ac ymrwymiad i barhad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Roedd llawer yn gweld blwyddyn bontio fel cyfle i atgyfnerthu arferion cryf y GFfG, ar yr amod bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn ddigon cyflym i osgoi ansefydlogi'r cyflawni cyn i'r GTLI ddod i rym yn llawn.

<u>Adborth i'r Ymgynghoriad: Dadansoddiad Sectoraidd</u>

**Unigolion**

Mynegodd ymatebwyr unigol rai o'r pryderon cryfaf am y newid, yn aml wedi'u seilio ar brofiad personol o ba mor niweidiol y gall toriadau mewn darpariaeth fod. Teimlai llawer fod perygl i'r dull arfaethedig ailadrodd patrymau'r gorffennol lle'r oedd seibiau sydyn yn achosi i gyfranogwyr ymddieithrio.

Mynegwyd amheuaeth yn aml gan unigolion ynghylch gallu awdurdodau lleol i reoli'r newid heb ddargyfeirio cyllid i bwysau mewnol. Er bod y pryderon hyn yn dominyddu, roedd nifer fach o unigolion yn cymeradwyo'r egwyddor gyffredinol o broses bontio wedi'i rheoli, ar yr amod ei bod yn osgoi tarfu. Nododd yr ymatebwyr hyn fod parhad perthnasoedd dibynadwy, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a chymunedau busnesau bach, yn hanfodol er mwyn cynnal momentwm a hyder: "Mae toriad sydyn rhwng rhaglenni... yn creu perygl o golli momentwm a hyder," fel y nododd un unigolyn.

## Y Sector Preifat

Yn gyffredinol, roedd ymatebion y sector preifat yn bragmatig ac yn amodol o ran eu cefnogaeth. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn croesawu'r bwriad o ddarparu parhad ac yn disgrifio'r pontio i'r GTLI fel cyfle i fynd i'r afael â dryswch, gydag un yn dweud bod "y dirwedd bresennol yn dioddef o ddyblygu... gyda chynigion sy'n cystadlu â'i gilydd ac weithiau'r un sefydliad yn darparu nifer o fentrau o dan wahanol frandiau."

Fodd bynnag, roedd barn gref hefyd na ddylai dilyniant arwain at fodel canolog neu un darparwr. Dywedodd ymatebwyr, er bod cydlynu'n bwysig, fod yn rhaid cadw atebolrwydd i gyd-destun lleol yn ddiogel. Ar ben hynny, nid oedd cyllid cyfalaf yn cael ei ystyried yn ymarferol oni bai ei fod yn cael ei gydbwyso â refeniw sy'n gallu cynnal gwasanaethau sy'n galluogi twf. Gwnaeth rhai cwmnïau ddadlau y dylai prosiectau sefydledig ag effaith glir barhau'n ddi-dor i'r GTLI, gan nodi "lle mae wedi cael ei datblygu'n dda... nid oes unrhyw synnwyr mewn diwygio dulliau presennol yn sylweddol."

Mynegodd nifer fach bryderon penodol i ranbarth gan nodi bod gwahaniaethau rhanbarthol angen atebion pwrpasol. Nododd eraill na ddylai'r newid wanhau gallu Cymru i gefnogi sectorau twf uchel neu strategol bwysig, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu prinder sgiliau.

## Y Trydydd Sector

Darparodd sefydliadau trydydd sector rai o'r ymatebion mwyaf manwl yn y maes hwn, gan adlewyrchu cefnogaeth eang i osgoi tarfu a phryder sylweddol ynghylch y posibilrwydd o golli capasiti arbenigol. Tynnodd llawer sylw at y ffaith bod y GFfG wedi bod yn sail i wasanaethau rheng flaen allweddol, yn enwedig ym maes gwaith ieuenctid, cyflogadwyedd a datblygu cymunedol. Fe wnaethant rybuddio y byddai "bylchau mewn darpariaeth ieuenctid, sgiliau a chyflogadwyedd...yn achosi i grwpiau agored i niwed ymddieithrio neu encilio", gan danlinellu pa mor fregus y gall cynnydd fod i bobl sy'n wynebu rhwystrau cymhleth.

Nododd nifer o'r ymatebwyr fod y newid yn bygwth sefydlogrwydd staffio, gyda hysbysiadau diswyddo posibl yn dod i'r amlwg yn absenoldeb eglurder cynnar. Nodwyd y byddai'n anodd - os nad yn amhosibl - cael pobl newydd i gymryd lle staff profiadol o'r trydydd sector yn gyflym, a bod perthnasoedd a ddatblygwyd dros

flynyddoedd yn rhan hanfodol o effeithiolrwydd y rhaglen: “ar ôl colli’r perthnasoedd hyn, does dim modd eu hailadeiladu’n hawdd.”

Gwnaeth cyrff trydydd sector hefyd dadlau’n gryf dros ganllawiau cynnar a thryloyw, cydgynhyrchu wrth lunio trefniadau pontio, a chydnabod rôl unigryw’r sector.

**Sector Cyhoeddus**

Roedd sefydliadau’r sector cyhoeddus yn gefnogol ar y cyfan i ddefnyddio strwythurau presennol y GFfG i reoli blwyddyn bontio cyflawni’r GTLl, gan ystyried hyn yn ymateb pragmatig i amserlenni wedi’u cywasgu. Fe wnaethant nodi’r arbenigedd, y systemau a’r partneriaethau a ddatblygwyd drwy’r GFfG a dadlau na ddylid colli’r rhain cyn pryd. Dywedodd un ymatebydd fod timau cyflawni’r GFfG wedi creu “systemau, arbenigedd a threfniadau partneriaeth gwerthfawr na ddylid eu colli,” yn enwedig o ystyried y ffenestr fer ar gyfer cynllunio.

Fodd bynnag, nododd ymatebwyr bwysigrwydd cysoni’r broses bontio â fframweithiau polisi ehangach - gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, strategaethau economaidd rhanbarthol, a llwybrau ôl-16 - i sicrhau cysondeb ar draws y system ehangach.

Roedd y risg o golli gweithlu yn fater arall a gododd dro ar ôl tro. Rhybuddiodd ymatebwyr, heb eglurder cynnar ynghylch dyraniadau a llywodraethu, y byddai awdurdodau lleol a cholegau’n wynebu prosesau diswyddo na ellid eu hosgoi, gan arwain at lai o gof sefydliadol a chapasiti cyflawni gwannach.

**Awdurdodau Lleol**

Roedd y mwyafrif llethol o’r awdurdodau lleol yn cytuno mai parhad drwy bensaernïaeth bresennol y GFfG oedd yr unig ffordd realistig o osgoi tarfu mawr. Roeddent yn datgan bod y GFfG wedi eu galluogi i adeiladu strwythurau llywodraethu a chapasiti cyflawni soffistigedig, ac y byddai datgymalu’r rhain yn rhy gyflym yn creu biwrocratiaeth ddiangen, oedi ac aneffeithlonrwydd.

Mynegodd nifer yr angen brys i egluro dyraniadau’n gynnar er mwyn osgoi anfon allan hysbysiadau diswyddo, gan rybuddio “na fyddai modd osgoi hysbysiadau diswyddo heb ganllawiau buan neu ymrwymiadau o ran cyllido.” Datganodd ymatebwyr hefyd y

byddai colli staff cyn pryd yn tanseilio'r union gapasiti y mae cynigion y flwyddyn drosglwyddo yn ceisio ei gadw'n ddiogel.

Roedd nifer o awdurdodau'n cwestiynu parodrwydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig ym mlynyddoedd dau a thri, gan fynegi pryderon am y posibilrwydd o chwalu strwythurau cyflawni lleol sefydledig. Yn gyffredinol, roedd awdurdodau lleol yn eiriol dros amserlenni realistig, hyblygrwydd refeniw cryfach, llywodraethu tryloyw, a chydnabyddiaeth barhaus o bwysigrwydd gallu lleol ochr yn ochr â chydlynu rhanbarthol.

<u>Adborth i'r Ymgynghoriad: Casgliad</u>

Gyda'i gilydd, mae'r ymatebion i Gwestiwn 8 yn dangos cyd-ddealltwriaeth o'r angen am broses bontio sydd wedi'i rheoli'n ofalus ac sy'n cynnal parhad lle mae hynny'n briodol, tra'n galluogi'r broses o bontio i'r dull gweithredu newydd ar gyfer y GTLl. Ar draws pob sector, nododd ymatebwyr y bydd llwyddiant y newid yn dibynnu ar ddiogelu capasiti cyflawni, diogelu perthnasoedd dibynadwy, a sicrhau bod tystiolaeth - nid cyfleustra - yn sail i benderfyniadau ynghylch pa rai o brosiectau'r GFfG ddylai barhau.

Er gwaethaf rhai pryderon, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn bod y newid yn gyfle - os caiff ei reoli'n dda - i adeiladu ar gryfderau'r GFfG a chreu dull mwy cydlynol o ymdrin â thwf lleol a rhanbarthol.

## Buddsoddiad Cenedlaethol

<u>Bwriad Polisi</u>

Er bod Llywodraeth Cymru wedi cynnig bod y rhan fwyaf o'r GTLl yn cael ei harwain yn rhanbarthol, roedd hefyd yn cynnig y dylai rhywfaint o gyllid gefnogi buddsoddiadau ar lefel genedlaethol neu ar lefel Cymru gyfan sy'n cael eu darparu gan y sefydliad mwyaf priodol. Bwriad yr ymyriadau cenedlaethol hyn yw ategu - nid dyblygu - gweithgarwch rhanbarthol a mynd i'r afael â chyfleoedd neu heriau y mae'n well delio â nhw ar raddfa ledled Cymru.

**Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu ar gyfer buddsoddiadau cenedlaethol?**

Adborth i'r Ymgynghoriad

Mae canlyniadau meintiol yn dangos cefnogaeth gymysg i fuddsoddiad Cymru gyfan. Ar draws sectorau, mae lefelau cytundeb yn amrywio'n fawr. Y sector preifat sy'n dangos y gefnogaeth gryfaf i'r cynigion (75%), tra bod unigolion yn dangos yr anghytundeb mwyaf (52.4%). Mae'r trydydd sector, y sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol i gyd yn dangos safbwyntiau gweddol gytbwys ar fuddsoddiad Cymru gyfan. Fodd bynnag, roedd pob un o'r sectorau hynny wedi cofnodi cyfraddau sylweddol o ddiffyg ymateb (33-35%), sy'n dangos ansicrwydd neu ymgysylltiad cyfyngedig. Yn gyffredinol, er bod y farn yn gytbwys ar y cyfan, mae mwy o gytuno nag anghytuno yn y rhan fwyaf o sectorau. Ond mae'r safbwyntiau rhanedig a'r lefelau uchel o ddiffyg ymateb yn awgrymu bod angen cyfathrebu clir ac eglurhad pellach ynghylch y cynigion sy'n adlewyrchu'r sylwadau o dan Gwestiwn 10.

| **Sector** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Dim Ymateb** |
|---|---|---|---|
| Unigolyn | 7 (33.3%) | 11 (52.4%) | 3 (14.3%) |
| Y Sector Preifat | 9 (75%) | 2 (16.7%) | 1 (8.3%) |
| Y Trydydd Sector | 34 (54%) | 8 (12.7%) | 21 (33.3%) |
| Sector Cyhoeddus | 14 (53.8%) | 3 (11.5%) | 9 (34.6%) |
| Awdurdod Lleol | 11 (34.4%) | 10 (31.3%) | 11 (34.4%) |

**Tabl 3:** Dadansoddiad sectoraidd o ymatebion i Gwestiwn 9 yr ymgynghoriad ynghylch a ydynt yn cytuno â'r dull o weithredu o ran buddsoddiadau cenedlaethol. Mae'r tabl yn dangos nifer a chanran Cytuno, Anghytuno a Dim Ymateb o gyfanswm y sector.

**Cwestiwn 10: A oes gennych chi farn am unrhyw ymyriadau penodol y dylid eu blaenoriaethu ar lefel genedlaethol yn unrhyw un o'r meysydd blaenoriaeth buddsoddi a ddisgrifir yn Adran 2?**

Adborth i'r Ymgynghoriad

Yn ansoddol, mae'r dadansoddiad yn dangos bod y gefnogaeth eang ar draws sectorau ar gyfer buddsoddiadau cenedlaethol, Cymru gyfan, lle mae graddfa, cysondeb neu allu arbenigol yn amlwg yn ychwanegu gwerth. Rhybuddiodd ymatebwyr dro ar ôl tro fod yn rhaid i brosiectau cenedlaethol ategu, nid diystyru,

blaenoriaethau rhanbarthol a lleol; y dylent osgoi dyblygu a biwrocratiaeth ormodol; a bod eu llwyddiant yn dibynnu ar gyflawni dibynadwy lleol gyda meini prawf tryloyw a dosbarthiad cyfartal ar draws rhanbarthau, gan gynnwys ardaloedd gwledig ac ardaloedd llai cyfoethog. Roedd y pryderon yn canolbwyntio ar risgiau gor-ganoli, gwthio modelau lleol effeithiol o'r neilltu, a sleid tuag at ddyluniad "un ateb i bawb". Roedd y cydbwysedd hwn rhwng cydlyniad cenedlaethol ac ymatebolrwydd lleol yn sail i ymatebion i Gwestiynau 9 a 10. Nododd ymatebwyr fod y gefnogaeth gryfaf pan fydd cydgysylltu cenedlaethol yn cael ei baru â hyblygrwydd rhanbarthol, dyrannu teg a chanlyniadau clir, mesuradwy, gyda gofal penodol i beidio ag esgeuluso cymunedau y tu allan i ardaloedd buddsoddi "traddodiadol".

Adborth i'r Ymgynghoriad: Dadansoddiad sectoraidd

**Unigolion**

Ymysg unigolion, cymeradwyodd llawer arweinyddiaeth genedlaethol mewn meysydd fel sgiliau, cyflogadwyedd a seilwaith hanfodol, yn enwedig lle mae heriau'n rhy fawr neu gymhleth i fynd i'r afael â nhw'n lleol. Rhoddodd yr ymatebwyr flaenoriaeth i gefnogi'r rhai hynny sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur, gydag un yn nodi y bydd "cynorthwyo pobl i gael gwaith a chynyddu sgiliau... yn cael effaith enfawr ar yr holl flaenoriaethau eraill yn naturiol", gan dynnu sylw at yr angen i gadw modelau effeithiol. Ar yr un pryd, ailadroddodd unigolion bryderon ynghylch y risg y byddai adnoddau cenedlaethol yn cael eu dargyfeirio i gyllidebau staffio awdurdodau lleol yn hytrach nag ymyriadau wedi'u targedu. Mynegwyd safbwyntiau gwahanol ganddynt ar flaenoriaethau amgylcheddol, gyda rhai yn eiriol dros fuddsoddiad cydgysylltiedig mewn seilwaith gwyrdd, tra bod eraill yn dadlau y dylai polisi cenedlaethol flaenoriaethu "seilwaith traddodiadol" dros fentrau sero net. Datganodd sawl un o'r ymatebwyr yr angen am gydlynu cenedlaethol dim ond lle mae "graddfa neu gysondeb yn ychwanegu gwerth go iawn," yn enwedig ar gyfer ymyriadau ar raddfa fawr neu drawsffiniol fel prosiectau mawr yn ymwneud â thrafnidiaeth neu ynni.

**Y Sector Preifat**

Roedd ymatebwyr o'r sector preifat yn gefnogol ar y cyfan i arweinyddiaeth genedlaethol mewn meysydd lle mae angen cynllunio strategol unedig ar Gymru, gan gynnwys seilwaith digidol ac ynni, cyllid ad-daladwy, ac ymchwil ac arloesi. Fe wnaethant nodi'r angen am brosiectau cenedlaethol cydlynol sy'n cryfhau cadwyni

cyflenwi, yn cefnogi twf busnesau ac yn cadw talent fedrus yng Nghymru. Roedd un cyflwyniad yn adlewyrchu'r farn: "gall cydlynu cenedlaethol ychwanegu gwerth, ond mae perygl y bydd rheolaeth genedlaethol ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol". Datganodd un arall yr angen am gyrhaeddiad teg ledled Cymru, gan rybuddio rhag canolbwyntio adnoddau yng nghoridorau'r A55 a'r M4 yn unig, a galwodd am gyfranogiad cryfach gan y sector preifat mewn dosbarthu er mwyn osgoi "dyraniadau o werth ychwanegol isel." Fe wnaeth un ymatebydd ddatgan "mecanweithiau buddsoddi a chyllid ad-daladwy cenedlaethol... i gefnogi buddsoddiad cyfalaf, gwella eiddo ac uwchraddio offer," a nododd un arall fod "angen cydlynu'r gwaith o gyflwyno band eang, uwchraddio'r grid ynni, a rhwydweithiau gwefru cerbydau trydan ar raddfa genedlaethol i sicrhau darpariaeth a safonau technegol." Roedd busnesau hefyd yn cydnabod bod rhai ymyriadau - fel prosiectau trafnidiaeth, ynni neu ddiogelwch bwyd ar raddfa fawr - yn addas yn naturiol i'w cyflawni'n genedlaethol, ar yr amod bod y gweithredu'n parhau i ymateb i amodau economaidd rhanbarthol.

**Y Trydydd Sector**

Yn gyffredinol, roedd sefydliadau trydydd sector yn cefnogi buddsoddiadau cenedlaethol lle maen nhw'n cael eu "dylunio ar y cyd â phartneriaid rhanbarthol a darparwyr arbenigol gan ychwanegu gwerth amlwg ... Rhaglenni cenedlaethol sy'n cael eu cyflawni'n lleol gan sefydliadau sy'n adnabod eu cymunedau", yn enwedig ar gyfer grwpiau agored i niwed neu grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Fel y crynhowyd gan un ymatebydd, mae'r dull yn "gadarn", ond "bydd ei lwyddiant yn dibynnu ar gadw sefydliadau cymunedol yn gyfan gwbl yn y sgwrs a sicrhau bod ymyriadau cenedlaethol yn ddigon hyblyg i addasu i realiti lleol". Roedd sefydliadau trydydd sector yn datgan yn gryf bod angen model ymyrryd cynnar ledled Cymru ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, gan ddisgrifio gweithredu cenedlaethol fel rhywbeth hanfodol i fynd i'r afael ag angen cynyddol. Fel y dywedodd un ymatebydd, "rhaid i raglen genedlaethol ymyrryd yn gynnar a chyflogadwyedd ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant fod yn brif flaenoriaeth genedlaethol", gan gyfeirio at y nifer cynyddol o bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol heb gymwysterau na hyder. Datganodd sefydliadau trydydd sector hefyd werth prosiectau gwirfoddoli cenedlaethol sy'n "galluogi llwybrau gwirfoddoli cyson ledled Cymru", ac sy'n cefnogi asedau cymunedol, lleoliadau diwylliannol a chanol trefi. Yn yr un modd, roedd y sector yn cefnogi dulliau cenedlaethol o ymdrin â chynhwysiant

digidol, budd cymunedol fel rhan o fuddsoddiad carbon isel, a fframweithiau canlyniadau a rennir a fyddai'n lleihau dyblygu ac yn cryfhau dysgu ar draws rhanbarthau.

**Sector Cyhoeddus**

Cynigiodd cyrff sector cyhoeddus gymeradwyaeth strategol ar gyfer buddsoddiadau cenedlaethol mewn meysydd fel systemau sgiliau, seilwaith, ymchwil a phlatfformau data, gan fynnu bod yn rhaid i raglenni ategu mentrau lleol a chael eu dylunio i weithredu ar draws "amrywiaeth lawn Cymru," nid cyd-destunau trefol yn unig. Safbwynt nodweddiadol oedd "dylai blaenoriaethau rhanbarthol adlewyrchu cynllunio cenedlaethol... mae rhai cyfleoedd - fel cynhyrchu ynni a chysylltedd - yn gofyn am ymyrraeth genedlaethol ac, mewn rhai achosion, ymyrraeth ar lefel y DU," ond dylid teilwra'r cyflawni a'i hangori'n lleol o hyd. Galwodd ymatebwyr am gryfhau gwerthuso a monitro effaith, ac fe wnaethant rybuddio i beidio gadael ffiniau gweinyddol ddod yn rhwystrau i brosiectau trawsffiniol.

Galwodd sefydliadau'r sector cyhoeddus hefyd am ymyriadau cenedlaethol parhaus mewn seilwaith carbon isel a chynaliadwy i sbarduno twf gwyrdd a gwella'r gallu i wrthsefyll yr hinsawdd, gan bwysleisio bod angen cydlynu cenedlaethol i osgoi systemau tameidiog. Fe wnaethant ddatgan y dylai ymyriadau cenedlaethol gyflymu twf clystyrau arloesi, cryfhau seilwaith digidol a chefnogi sectorau gweithgynhyrchu uwch ac ynni glân, a bod arweinyddiaeth genedlaethol yn briodol ar gyfer anghenion arbenigol, traws-ranbarthol - cyn belled â'i bod yn cefnogi hyblygrwydd lleol ac nad yw'n canolbwyntio manteision mewn un ardal ddaearyddol.

**Awdurdodau Lleol**

Barn awdurdodau lleol oedd fwyaf rhanedig; mynegwyd safbwynt cymysg mewn ymatebion i Gwestiwn 9 a thynnwyd sylw at sawl thema adeiladol yng Nghwestiwn 10. Roedd llawer o awdurdodau'n cydnabod bod cydlynu cenedlaethol yn gallu ychwanegu gwerth lle mae angen cyfeiriad strategol, gorwelion cynllunio hirdymor a safonau cyson ond roedd grŵp sylweddol yn gwrthwynebu "brigdorri" oherwydd y gallai "leihau'r cyllid sydd ar gael ar gyfer cyflawni wedi'i theilwra'n lleol," a oedd yn fwy "ystwyth" ac yn effeithiol yn eu barn nhw. Roedd rhai'n croesawu rôl genedlaethol gliriach mewn meysydd fel cynhwysiant digidol, cymorth i fusnesau, seilwaith gwyrdd a rhoi safleoedd ac adeiladau allweddol ar waith, gan nodi y dylai ymyriadau ar lefel

genedlaethol “sicrhau hirhoedledd cyllid a chreu modelau cyflawni di-dor, sy’n cynnal seilwaith ac yn caniatáu cynllunio hirdymor.” Thema a gododd dro ar ôl tro oedd y risg y byddai ardaloedd economi wledig a sylfaenol yn cael eu gadael ar ôl os bydd cynlluniau cenedlaethol yn clystyru o amgylch asedau twf uchel, ac y gallai amserlenni a biwrocratiaeth arwain at oedi o ran cyflawni mewn cyfnod cyllido o dair blynedd.

Adborth i’r Ymgynghoriad: Casgliad

I grynhoi, mae ymatebwyr yn cefnogi haen genedlaethol wedi’i chwmpasu’n ofalus sy’n pennu cyfeiriad, yn defnyddio graddfa, ac yn sicrhau cysondeb. Ond mae angen gwneud hyn mewn partneriaeth i sicrhau bod prosiectau cenedlaethol yn berthnasol yn rhanbarthol ac yn lleol ac yn osgoi gor-ganologi. Mae ymatebwyr yn chwilio am brosiectau cenedlaethol sy’n galluogi cyflawni lleol, yn gwarchod ardaloedd gwledig a llai cyfoethog, ac yn trosi uchelgeisiau strategol yn ganlyniadau pendant sy’n seiliedig ar leoedd.

## Methodoleg Dyrannu

Bwriad Polisi

Er mwyn cefnogi proses ddidrafferth o bontio i’r GTLl, byddwn yn gweithio gyda llywodraeth leol i bennu dyraniadau blwyddyn bontio ar sail anghenion rhanbarthol. Ar gyfer y blynyddoedd dilynol, byddwn yn cytuno ar ddyraniadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig gan ddefnyddio methodoleg wrthrychol a thryloyw sy’n gyson â blaenoriaethau’r Cynllun Buddsoddi ac sy’n seiliedig ar ddangosyddion fel amddifadedd, cynhyrchiant, diweithdra, anweithgarwch economaidd, a dwysedd poblogaeth.

### Cwestiwn 11: A oes gennych chi farn am y meini prawf y dylid eu defnyddio i bennu dyraniadau rhanbarthol, sy’n gysylltiedig â’r blaenoriaethau?

Adborth i’r Ymgynghoriad

Nododd ymatebwyr ar draws sectorau bwysigrwydd mabwysiadu fframwaith methodolegol cytbwys sy’n seiliedig ar dystiolaeth ac sy’n integreiddio dangosyddion angen a mesurau cyfleoedd. Y mesur a gefnogwyd fwyaf oedd Mynegai Amddifadedd

Lluosog Cymru (MALIC). Roedd gwrthwynebiad cryf i fformiwlâu poblogaeth yn unig, gyda chytundeb eang bod yn rhaid i natur wledig, rhwystrau cysylltedd a chostau cyflawni uwch cael eu cydnabod yn briodol er mwyn osgoi rhoi ardaloedd tenau eu poblogaeth dan anfantais. Nododd ymatebwyr hefyd fod meini prawf tryloyw a rhagweladwyedd amlflwyddyn yn hanfodol ar gyfer cynllunio effeithiol, diogelu capasiti cyflawni, a galluogi buddsoddiad strategol yn hytrach na gweithgarwch prosiect tameidiog. Pwysleisiodd llawer werth cysoni â fframweithiau economaidd ehangach - fel Porthladdoedd Rhydd, Parthau Buddsoddi a gwybodaeth sgiliau rhanbarthol - ar yr un pryd â chynnal hyblygrwydd ar gyfer mentrau traws-ranbarthol. Nodwyd hefyd bod pwysau amgylcheddol, risg hinsawdd ac effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yn ystyriaethau hanfodol wrth ddylunio model dyrannu sy'n deg ac wedi'i diogelu ar gyfer y dyfodol.

<u>Adborth i'r Ymgynghoriad: Dadansoddiad Sectoraidd</u>

**Unigolion**

Nododd ymatebwyr unigol bwysigrwydd tegwch a thryloywder mewn methodolegau dyrannu, gan rybuddio y gall penderfyniadau lleol fod yn agored i ragfarn sefydliadol ac ystumio sy'n cael ei yrru gan gymhellion. Ar yr un pryd, roedd ymatebwyr yn cydnabod y gofyniad cyffredinol am fuddsoddi, gan argymell dull gweithredu sy'n gyson ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i sicrhau bod effeithiau hirdymor yn cael eu hasesu'n systematig. Galwodd llawer am feini prawf sy'n ymgorffori proffil poblogaeth ac oedran ochr yn ochr ag amddifadedd, anghenion cyflogaeth a chysylltedd, gydag un ymatebydd yn crynhoi y dylai dyraniadau rhanbarthol adlewyrchu "angen a manteision cymdeithasol ac economaidd".

**Y Sector Preifat**

Roedd ymatebion gan y sector preifat yn gyson o blaid model sy'n pwysleisio angen economaidd-gymdeithasol ar yr un pryd â chydnabod potensial twf a'r gallu i gyflawni yn benodol. Roedd un ymateb yn argymell gwarantu "isafswm o ran dyraniad sylfaenol i feithrin capasiti cyflawni" ar gyfer rhanbarthau llai neu wledig, gan gyhoeddi'r fethodoleg yn llawn, a chysoni â buddsoddiadau presennol i osgoi dyblygu. Nododd un arall y dylai meini prawf nodi lle gellir sicrhau enillion profedig ar fuddsoddiad, gan gyfeirio at raglenni sydd â chanlyniadau cyflogaeth cryf a dilyniant cyflym fel enghreifftiau o werth a dylanwad. Nododd busnesau hefyd fylchau mewn seilwaith

digidol ac ymddieithrio ymysg pobl ifanc fel arwyddion ar gyfer pwysoli, gan nodi y dylai “rhanbarthau sydd â diffyg clir o ran cyfatebiaeth rhwng swyddi gwag digidol a’r dalent sydd yno gael pwysoliad ychwanegol.”

**Y Trydydd Sector**

Dadleuodd sefydliadau’r trydydd sector dros “fasged dryloyw o ddangosyddion” sy’n cyfuno amddifadedd, anweithgarwch, cyfraddau NEET, bylchau mewn sgiliau, natur wledig ardaloedd a chyfleoedd sectoraidd, gydag isafswm wedi’i nodi i ddiogelu darpariaeth sylfaenol mewn ardaloedd prin eu poblogaeth. Rhybuddiodd ymatebwyr yn erbyn dyraniadau gwleidyddol ac anogwyd buddsoddiad “yn y seilwaith busnes lleol” i sicrhau bod cymunedau’n elwa o gyfleoedd strategol yn hytrach na gweld gwerth yn cael ei dynnu o rywle arall. Nododd sawl un “allwn ni ddim canolbwyntio ar ardaloedd poblog yn unig oherwydd bydd ardaloedd mawr o Gymru ar eu colled,” gan atgyfnerthu galwadau i adlewyrchu costau cyflawni a heriau mynediad mewn lleoliadau gwledig. Pwysodd y sector hefyd am bwysoliad tuag at grwpiau agored i niwed a llefydd lle mae bod yn ddi-waith yn rhywbeth sydd wedi’i wreiddio’n ddwfn ac yn aml-genhedlaeth, gan ddadlau bod yn rhaid i feini prawf “roi angen, anghydraddoldeb a bylchau cyfle yn flaenllaw ac yn ganolog.”

**Sector Cyhoeddus**

Roedd cyrff cyhoeddus yn cefnogi’n gyson y gwaith o ddatblygu meini prawf dyrannu sy’n cynnal tegwch, yn adlewyrchu angen amlwg, ac yn asesu effaith bosibl drwy fframwaith tryloyw sy’n seiliedig ar dystiolaeth. Roedd ymatebwyr yn argymell cynnwys pwysau amgylcheddol, capasiti’r ecosystem a risg hinsawdd yn y rhesymeg dyrannu, ochr yn ochr â chydnabod cyfleoedd strategol o arwyddocâd cenedlaethol fel Porthladdoedd Rhydd a glanfa ar gyfer gwynt ar y môr. Galwodd sefydliadau addysg a sgiliau am fesurau sy’n seiliedig ar ddata o’r galw am sgiliau a’r prinder ohonynt, pa mor agored i niwed yw dysgwyr a chapasiti seilwaith lleol, ac am i ganlyniadau gynnwys dangosyddion arloesi a gwydnwch, nid dim ond allbwn llafur. Yn olaf, rhybuddiodd nifer o ymatebwyr yn erbyn crynhoi adnoddau mewn coridorau sydd eisoes yn ffyniannus, gan ddadlau dros ddatblygu rhanbarthol cytbwys lle mae pob rhan o Gymru yn gweithredu fel sbardunau twf posibl, gyda chyllid yn cael ei gyfuno o amgylch prosiectau effaith uchel sy’n arwyddocaol yn rhanbarthol yn hytrach na meicro-ddyraniadau tameidiog.

**Awdurdodau Lleol**

Roedd awdurdodau lleol o blaid fformiwla gytbwys sy'n cydnabod amddifadedd, anweithgarwch economaidd, diweithdra ymysg pobl ifanc a salwch tymor hir, gan gadw'r capasiti cyflawni a ddatblygwyd o dan raglenni diweddar yn ddiogel. Roedd llawer yn pwyso am eglurder brys ynghylch dyraniadau i gadw staff medrus a chynnal momentwm, ac yn argymell bod dulliau rhanbarthol yn gwreiddio tystiolaeth leol fel Cynlluniau Cynefin fel rhan o biblinell gydlynol o'r gwaelod i'r brig ac o'r brig i lawr. Roedd nifer o blaid defnyddio model dyrannu presennol y GFfG i gyflymu'r gwaith o gyflawni blwyddyn bontio, gan nodi ei ymarferoldeb a'i derbynioldeb eang, ochr yn ochr â hyblygrwydd i ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg. Roedd eraill yn cynnig ychwanegu at ddangosyddion craidd gyda mesurau o ddiffygion cysylltedd digidol, potensial i gynyddu gwerth ychwanegol gros ac anghydraddoldebau mesuradwy, gan sicrhau bod pwysau ar y galw trefol a chostau cyflawni gwledig yn cael eu cydnabod o fewn trefn fonitro gymesur.

<u>Adborth i'r Ymgynghoriad: Casgliad</u>

Gyda'i gilydd, mae'r ymatebion yn argymell fformiwla deg, dryloyw ac addasadwy sy'n pwyso a mesur yr angen economaidd-gymdeithasol, allgáu o'r farchnad lafur a phwysau demograffig ochr yn ochr â chyfleoedd sectoraidd, y gallu i gyflawni a gwydnwch hirdymor. Mae'r ymatebion yn nodi'r risgiau o fuddsoddi mewn ardaloedd sydd eisoes yn denu cyllid twf arall yn unig. Mae'r dull sy'n cael ei ffafrio yn gwrthsefyll fformiwlâu poblogaeth swrth, yn cyfrif am gyfyngiadau o ran cysylltedd a'r natur wledig, ac yn diogelu capasiti drwy ragweladwyedd amlflwyddyn.

**Cynlluniau twf rhanbarthol sy'n gysylltiedig â gweledigaeth deng mlynedd**

<u>Bwriad y Polisi</u>

Er mwyn sicrhau twf rhanbarthol cydlynol, bydd pob Cyd-bwyllgor Corfforedig yn datblygu cynllun twf rhanbarthol sy'n cysylltu â gweledigaeth deng mlynedd ac sy'n cynnwys cynllun cyflawni dwy flynedd. Dylai hyn gyd-fynd â dogfennau strategol presennol, gan osod blaenoriaethau a threfniadau llywodraethu clir. Bydd y cynlluniau hyn yn llywio sut mae rhanbarthau'n defnyddio eu dyraniadau i wella cynhyrchiant a lleihau anghydraddoldebau economaidd, gan barhau i fod yn hyblyg ac yn gyson â

chanlyniadau cenedlaethol. Bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cydlynu portffolios buddsoddi rhanbarthol ac yn cydweithio ag awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol.

**Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig gysylltu â gweledigaeth deng mlynedd a chytuno ar gynllun cyflawni gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllid Twf Lleol?**

<u>Adborth i'r ymgynghoriad</u>

Yn gyffredinol, mae'r ymatebion yn dangos lefelau amrywiol o gefnogaeth ar draws sectorau. Mae cytundeb ar ei uchaf yn y sector preifat (83.3%) a'r sector cyhoeddus (61.5%), sy'n dangos cefnogaeth gref i'r cynigion gan y grwpiau hyn. Mae'r trydydd sector hefyd yn dangos cytundeb mwyafrifol (54%), er bod ei gyfradd diffyg ymateb gymharol uchel (33.3%) yn awgrymu rhywfaint o ansicrwydd neu ymgysylltiad cyfyngedig. Mae'r farn o fewn awdurdodau lleol yn fwy rhanedig, gyda dim ond 34.4% yn cytuno a chyfran debyg yn rhoi dim ymateb(37.5%). Mae unigolion wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng cytuno ac anghytuno (42.9% ill dau), sy'n adlewyrchu teimladau cymysg. Yn gyffredinol, mae yna fwy o gefnogaeth nag anghytuno, ond mae lefel sylweddol o ddiffyg ymateb mewn rhai sectorau. Nid yw'r rheswm dros y lefelau dim ymateb yn glir.

| **Sector** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Dim Ymateb** |
|---|---|---|---|
| Unigolyn | 9 (42.9%) | 9 (42.9%) | 3 (14.3%) |
| Y Sector Preifat | 10 (83.3%) | 1 (8.3%) | 1 (8.3%) |
| Y Trydydd Sector | 34 (54%) | 8 (12.7%) | 21 (33.3%) |
| Sector Cyhoeddus | 16 (61.5%) | 2 (7.7%) | 8 (30.8%) |
| Awdurdod Lleol | 11 (34.4%) | 9 (28.1%) | 12 (37.5%) |

**Tabl 4:** Dadansoddiad sectoraidd o ymatebion i Gwestiwn 12 yr ymgynghoriad ynghylch a ydynt yn cytuno â'r cynnig i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gysylltu â gweledigaeth deng mlynedd a chytuno ar gynllun cyflawni ar gyfer y GTLl gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r tabl yn dangos nifer a chanran Cytuno, Anghytuno a Dim Ymateb o gyfanswm y sector.

<u>Adborth i'r Ymgynghoriad</u>

Mae dadansoddiad ansoddol o'r ymatebion yn dangos, lle mae ymatebwyr yn gefnogol ar y cyfan, ei fod fel arfer yn amodol ar hyblygrwydd, llywodraethu cryfach, a

chyfranogiad ystyrlon gan bartneriaid lleol a thrydydd sector. Roedd sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yn cefnogi'r weledigaeth deng mlynedd, ond yn pwysleisio'r angen am gynrychiolaeth ffurfiol o fewn Cyd-bwyllgorau Corfforedig i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â fframweithiau sgiliau ac arloesi cenedlaethol. At ei gilydd, mae ymatebwyr yn cefnogi'r egwyddor o weledigaeth deng mlynedd sy'n gysylltiedig â chynlluniau cyflawni rhanbarthol dan arweiniad y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gan ddadlau bod gorwelion amser hirach yn mynd yn groes i fyrdymhoriaeth, yn galluogi prosiectau cymhleth ac yn rhoi sefydlogrwydd i bartneriaid a chymunedau. Maent yn pwysleisio, fodd bynnag, fod llwyddiant yn dibynnu ar hyblygrwydd, cylchoedd adolygu rheolaidd a llywodraethu cynhwysol sy'n rhoi llais ystyrlon i awdurdodau lleol, y trydydd sector, busnesau a chymunedau. Mae llawer yn rhybuddio rhag creu rhagor o fiwrocratiaeth neu oedi cyn cyflawni. Mae eraill yn cwestiynu capasiti Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar hyn o bryd, gan argymell modelau sy'n cadw darpariaeth leol mewn fframwaith rhanbarthol cyffredinol.

Adborth i'r Ymgynghoriad: Dadansoddiad Sectoraidd

**Unigolion**

Roedd ymatebwyr unigol yn mynegi amrywiaeth gytbwys o safbwyntiau, gyda chydbwysedd bras rhwng safbwyntiau cefnogol a beirniadol a sawl cofnod niwtral. Mae sylwadau cefnogol yn croesawu symud oddi wrth botiau byr, blwyddyn o hyd, gan weld gorwel deng mlynedd yn fodel mwy effeithlon sy'n cyd-fynd yn well ag effaith barhaus, fesuradwy: "Oes, mae angen cynllunio ar gyfer y tymor hwy. Mae pot cyllido blwyddyn yn aneffeithlon iawn." Mae eraill yn annog meddwl "tu hwnt i ddeng mlynedd ac ystyried cenedlaethau'r dyfodol", gan bwysleisio y dylai'r cyflawni parhau i gael ei harwain gan ranbarthau gyda digon o ymreolaeth i Gyd-bwyllgorau Corfforedig o fewn fframwaith y cytunwyd arno: "Ie, yn gyffredinol... rhaid i gynlluniau cyflawni gael eu harwain gan ranbarthau gyda digon o ymreolaeth i Gyd-bwyllgorau Corfforedig flaenoriaethu buddsoddiad ar sail tystiolaeth leol." Mae lleisiau beirniadol yn mynegi drwgdybiaeth gref o'r llywodraeth ac yn ofni y byddai arian yn cael ei ddargyfeirio i staffio neu i wasanaethau craidd; mae rhai yn galw'r cynnig yn "brosiect sy'n bersonol i rywun arall," ac yn awgrymu mecanweithiau fel "pleidleisio arddull y Swistir" i brofi cefnogaeth genedlaethol. Mae sawl cofnod yn cwestiynu gweledadd ac effeithiolrwydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac yn galw am atebolrwydd cliriach.

**Y Sector Preifat**

Yn gyffredinol, mae ymatebwyr o'r sector preifat yn cefnogi'r syniad o weledigaeth deng mlynedd, yn enwedig ar gyfer sectorau sy'n defnyddio llawer o gyfalaf ac sydd ag amserlen sylweddol ac estynedig fel ynni a seilwaith, gan nodi manteision ar gyfer hyder buddsoddwyr ac aliniad ar draws rhaglenni. Maen nhw'n dadlau bod rhaid paru sefydlogrwydd strategol ag ystwythder: "Rhaid i gynllun deng mlynedd beidio â bod yn ddeng mlynedd o gyfyngu. Gall y byd newid yn ddramatig mewn dwy neu dair blynedd yn unig," ac felly maen nhw'n argymell proses ffurfiol o adolygu ac addasu ar gylch treigl dwy i dair blynedd. Cynigiodd ymatebwyr fyfyrdodau cynnil ar drefniadau llywodraethu a chyflawni. Rhybuddiodd rhai y gallai dyrannu adnoddau ychwanegol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ddyblygu strwythurau partneriaeth lleol presennol sydd eisoes yn perfformio'n effeithiol, gan godi cwestiynau ynghylch effeithlonrwydd a gwerth am arian. Cynigiodd nifer o gyfranwyr gydbwyso'r weledigaeth strategol hirdymor â chynlluniau cyflawni tymor byrrach cam wrth gam i gynnal momentwm ac atal oedi gweithredol.

**Y Trydydd Sector**

Roedd sefydliadau trydydd sector yn mynegi cefnogaeth gref dros ddull gweithredu strategol hirdymor, gan ddadlau na ellir cyflawni newid ystyrlon o ran anghydraddoldeb, ymddieithrio ymysg pobl ifanc a gwydnwch cymunedol o fewn cylchoedd byr. Roedd ymatebwyr yn datgan pwysigrwydd cyd-gynhyrchu, tryloywder a chynnwys grwpiau trydydd sector a grwpiau dan arweiniad y gymuned yn ffurfiol mewn llywodraethu, gan rybuddio heb hyn y gall "y lleisiau uchaf" ddominyddu ac y gallai rhanbartholi dan arweiniad y Cyd-bwyllgorau Corfforedig wanhau gwybodaeth leol a ffafrio cynlluniau mawr sy'n cael eu harwain gan y sector cyhoeddus neu'r brifysgol. Er bod rhai sefydliadau'n croesawu cysoni gweithgarwch Cyd-bwyllgorau Corfforedig â gweledigaeth deng mlynedd - ar yr amod bod gan grwpiau cymunedol rolau gwneud penderfyniadau gwirioneddol - roedd eraill yn mynegi amheuaeth ynghylch parodrwydd y model. Roedd y pryderon yn canolbwyntio ar anaeddfedrwydd tybiedig strwythurau llywodraethu Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'u cynrychiolaeth gyfyngedig o ran arwain agendâu cyflogaeth a sgiliau yn effeithiol ar hyn o bryd. Ar draws yr ymatebion, roedd galwadau dro ar ôl tro am gyllid capasiti wedi'i neilltuo i gefnogi cyfranogiad y sector gwirfoddol ac am brosesau ymgysylltu symlach a hygyrch

sy'n sicrhau bod sefydliadau llai yn gallu cyfrannu'n ystyrlon at gynllunio a darparu rhanbarthol.

**Sector Cyhoeddus**

At ei gilydd, mae ymatebwyr o'r sector cyhoeddus yn cytuno y byddai gweledigaeth deng mlynedd yn darparu cyfeiriad strategol, sefydlogrwydd ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r cyfranwyr yn pwysleisio integreiddio â fframweithiau presennol - fel cynlluniau economaidd rhanbarthol a phensaernïaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - a phwysigrwydd hyblygrwydd i ymateb i gyfleoedd arloesi a siociau allanol. Mae un ymateb yn crynhoi'r achos craidd: "Bydd cysylltu Cyd-bwyllgorau Corfforedig â gweledigaeth deng mlynedd hirdymor yn darparu cyfeiriad strategol," tra bod un arall yn rhybuddio am y cyfnod deng mlynedd "nid yw'n ymddangos ei fod yn cyd-fynd â pholisïau pennu gweledigaeth eraill Llywodraeth Cymru," gan annog cysoni'n ofalus â fframweithiau fel Cymru'r Dyfodol 2040. Mae prifysgolion a cholegau yn dadlau dros rolau ffurfiol mewn llywodraethu, gan nodi'r angen i wreiddio ymchwil, arloesi a sgiliau lefel uwch, ac yn rhybuddio bod y rhain "yn aml yn absennol o strategaethau lleol" heb gyfranogiad strwythuredig.

**Awdurdodau Lleol**

Mae ymatebwyr o awdurdodau lleol yn cefnogi gweledigaeth hirdymor yn amodol ond yn mynnu y dylid diogelu cyflawni lleol, ymreolaeth a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar leoedd o dan y GFfG. Dywedodd ymatebwyr y dylai prosesau cymeradwyo fod yn gymesur ac yn gyflym er mwyn osgoi oedi, gydag un ymatebydd yn dweud bod cynllunio rhanbarthol yng Nghronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi arwain at golli blwyddyn o weithredu. Mae awdurdodau lleol yn tynnu sylw at gyfyngiadau capasiti yn y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r risg o ddargyfeirio refeniw prin i lywodraethu yn hytrach na chyflawni rheng flaen. Mae llawer yn cyfeirio at gynlluniau rhanbarthol deng mlynedd presennol ac yn cwestiynu'r angen am ddogfennau cyfochrog. Mae eraill yn herio penderfyniad rhanbarthol ynghylch "cynlluniau twf lleol" ar sail sybsidiaredd, ac yn pwysleisio bod yn rhaid i flaenoriaethau rhanbarthol adlewyrchu'r amrywiaeth mewn rhanbarthau, yn enwedig ardaloedd gwledig ac awdurdodau llai.

Adborth i'r Ymgynghoriad:  Casgliad

Yn gyffredinol, mae ymatebwyr yn cefnogi cysylltu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn datblygu cynlluniau twf rhanbarthol â gweledigaeth deng mlynedd gyda chynllun cyflawni y cytunwyd arno ar y cyd, gan gydnabod y manteision ar gyfer cydweddu strategol, sefydlogrwydd a hyder buddsoddwyr. Dylai'r cynlluniau hyn osgoi dyblygu, defnyddio cynlluniau presennol, ac adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Bydd angen ymgysylltu'n briodol â phartneriaid ar gynlluniau cyflawni a sicrhau bod gallu addas ar waith ar lefel ranbarthol a lleol, gan osgoi dyblygu.

**Rôl Cyflawni'n Lleol mewn Cynllunio Cenedlaethol a Rhanbarthol**

Bwriad Polisi

Sicrhau bod yr holl flaenoriaethau twf rhanbarthol a chenedlaethol yn cael eu cyflawni'n effeithiol drwy weithredu cadarn sy'n seiliedig ar leoedd, gydag awdurdodau lleol a chyrff cyflawni lleol eraill yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gynllunio a chyflawni ymyriadau.

**Cwestiwn 13: A oes gennych unrhyw farn am sut gellir cynnwys cyflawni lleol mewn cynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol?**

Adborth i'r ymgynghoriad

Roedd yr ymatebwyr yn nodi'n gyson rôl hanfodol cyflawni lleol o ran diwallu nodau'r GTLl. Er bod llawer yn cefnogi gwerth fframwaith rhanbarthol, roeddent yn nodi bod yn rhaid i'r cyflawni fod wedi'i gwreiddio mewn arbenigedd sy'n seiliedig ar leoedd, perthnasoedd dibynadwy a dealltwriaeth ddofn o farchnadoedd llafur lleol, anghenion cymunedol a realiti busnes.

Galwodd ymatebwyr dro ar ôl tro am gyd-ddylunio "o'r cychwyn cyntaf," nid ymgynghoriad hwyr yn y dydd; am safonau sylfaenol i warchod rhag loterïau cod post; ac am gyllid hyblyg, amlflwyddyn sy'n diogelu capasiti lleol ac yn galluogi addasu wrth i anghenion newid. Trafododd nifer yr angen am ddolenni adborth ffurfiol i sicrhau bod profiad ar lawr gwlad yn sail i gyfeiriad polisi, ac ar gyfer systemau caffael a goruchwylio sy'n dryloyw ac yn gwarchod rhag gwrthdaro rhwng buddiannau.

Adborth i'r Ymgynghoriad: Dadansoddiad Sectoraidd

## Unigolion

Mynegwyd cymysgedd o amheuaeth a chefnogaeth gan ymatebwyr unigol. Roedd llawer yn cefnogi gweithredu dan arweiniad lleol o fewn fframweithiau cenedlaethol a rhanbarthol, ond yn nodi bod yn rhaid i'r cyflawni fod yn ddilys, nid yn symbolaidd, a rhaid iddi fynd i'r afael â chostau byw a thlodi fel blaenoriaethau sylfaenol. Roedd y pryderon yn canolbwyntio ar y risg y gallai awdurdodau lleol "arallgyfeirio arian i wasanaethau craidd yn hytrach na'r prosiectau arfaethedig," ochr yn ochr â galwadau am safonau sylfaenol i osgoi loterïau cod post ar yr un pryd â chadw hyblygrwydd yn ddiogel ar gyfer cyd-destun lleol. Mae awydd amlwg am gyfranogiad ehangach, gan gynnwys y sector preifat, "Rhaid i'r sector preifat chwarae mwy o ran", ac am gyd-ddylunio "o'r cychwyn cyntaf a pheidio â chael ei drin fel ôl-ystyriaeth."

## Y Sector Preifat

Dywedodd ymatebwyr o'r sector preifat fod yn rhaid i gyflawni lleol fod yn rhan annatod o'r model, nid dim ond estyniad gweinyddol. Roeddent yn cefnogi dull rhaeadr o weithredu lle'r oedd cyrff cenedlaethol neu ranbarthol yn gosod strategaeth a safonau tra bod cyfrifoldeb gweithredol yn llifo i bartneriaid lleol galluog. Fe wnaethant bwysleisio partneriaethau lleol eang - rhwydweithiau busnes, colegau, mentrau cymdeithasol - a galw am gysondeb cenedlaethol mewn canlyniadau gyda hyblygrwydd lleol o ran dulliau. Roedd ymatebwyr hefyd yn annog dolenni adborth ffurfiol fel bod gwybodaeth leol yn llywio penderfyniadau lefel uwch, ac yn argymell llwyfannau digidol i ddod o hyd i atebion lleol yn dorfol. Fel y dywedodd un ohonyn nhw: "Rhaid i gyflawni lleol fod yn rhan graidd o'r model... Mae llawer o brosiectau mwyaf effeithiol y GFfG wedi gweithio'n union oherwydd bod cyflawni wedi'i wreiddio mewn partneriaethau lleol a oedd yn deall eu heconomïau ac a allai symud yn gyflym i ateb y galw yn lleol," gan rybuddio hefyd bod angen "llywodraethu Cenedlaethol a Rhanbarthol i sicrhau bod gan Arweinwyr Prosiectau y galluoedd a'r gefnogaeth gywir."

## Y Trydydd Sector

Nododd sefydliadau'r trydydd sector yn gyson bod cyflawni lleol yn hanfodol i wreiddio cynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol mewn realiti cymunedol. Roeddent yn pwyso

am gyd-ddylunio, cyllid hyblyg a meithrin gallu - yn enwedig ar gyfer darparwyr llai sy'n aml yn cario risgiau anghymesur o dan fodelau sy'n seiliedig ar ôl-ddyledion. Datganodd ymatebwyr rôl arbenigedd lleol, gan gynnwys gwybodaeth ieithyddol a diwylliannol, a rhybuddiodd y gallai strwythurau rhy ganolog fel Cyd-bwyllgorau Corfforedig eithrio lleisiau lleol yn anfwriadol. Roedd eu hachos dros gyllid hirdymor, addasol a phartneriaethau cynhwysol wedi'i angori yng ngallu'r sector i feithrin ymddiriedaeth a sicrhau enillion cymdeithasol uchel: "Y bobl orau i sicrhau bod cyflawni lleol yn llywio cynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol yw pobl leol a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi a'u cynrychioli."

**Sector Cyhoeddus**

Roedd ymatebion y sector cyhoeddus yn ystyried bod cyflawni lleol yn hanfodol ond yn gymhleth, a oedd yn gofyn am fframweithiau clir, ymgysylltiad cadarn a phartneriaethau traws-sector cryf. Roeddent yn galw am ddirprwyo lle bo hynny'n briodol, monitro tryloyw, a mecanweithiau i ddysgu ac addasu dros amser. Awgrymwyd y dylid manteisio ar sefydliadau angori presennol - fel colegau addysg bellach - a modelau lleol profedig a'u graddio, lle bo hynny'n effeithiol, gan ddefnyddio fframweithiau cenedlaethol a rhanbarthol i osgoi dyblygu ac i gydlynu mentrau ar raddfa fawr. Fel y crynhodd un ymatebwr, "Mae'r holl gyflawni'n lleol," ond rhaid i'r system osgoi seilos a sicrhau bod rolau, cyfrifoldebau a mecanweithiau adborth wedi'u diffinio'n dda.

**Awdurdod Lleol**

Dadleuodd ymatebwyr o awdurdodau lleol fod cyflawni'n lleol yn hanfodol i lwyddiant ac y dylai fod yn flaenllaw o ran cynlluniau. Roeddent yn ffafrio dyraniadau lleol gwarantedig a chyllid a chaffael dan berchnogaeth leol, wedi'u clymu i ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar leoedd sy'n adlewyrchu anghenion amrywiol. Roedd ymatebwyr yn annog deialog gynnar ac agored a chyd-ddylunio gyda thimau rhanbarthol, gan adeiladu ar y capasiti cyflawni presennol o raglenni fel y GFfG. Fe wnaethon nhw rybuddio yn erbyn biwrocratiaeth a chanoli a allai erydu gallu lleol, a galwasant am fframweithiau clir, sicrwydd tymor hir a mecanweithiau i osgoi loterïau cod post. Datganodd un awdurdod lleol bwysigrwydd cynnal rhwydweithiau lleol cryf a dolenni adborth fel bod "dysgu'n cael ei rannu, a chynlluniau'n cael eu mireinio dros amser."

Adborth i'r Ymgynghoriad: Casgliad

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o blaid gwreiddio cyflawni lleol fel un o gryfderau craidd y model. Roeddent yn chwilio am ddull gweithredu "fframwaith cenedlaethol, hyblygrwydd lleol" sy'n cyfuno safonau a chanlyniadau clir â chyflawni a gydgynlluniwyd ac sydd dan arweiniad lleol gan ddefnyddio partneriaid dibynadwy a rhwydweithiau presennol.

**Monitro a Gwerthuso**

Bwriad Polisi

Sefydlu dull cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fonitro a gwerthuso - gan ddefnyddio gofynion safonol ar draws pob lefel o gyflawni, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach nag allbynnau, a chefnogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig a phartneriaid drwy ganllawiau cydlynol, gwerthuso annibynnol, a dysgu ar y cyd.

**Cwestiwn 14: A ydych chi'n cytuno â'r dull o fonitro a gwerthuso?**

Adborth i'r ymgynghoriad

Ar draws pob sector, roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r dull o fonitro a gwerthuso, er bod lefel y cytundeb yn amrywio. Y sector preifat ddangosodd y gefnogaeth gryfaf, gyda 83% yn cytuno a dim anghytuno wedi'i gofnodi. Dangosodd unigolion, y trydydd sector, y sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol lefelau cytundeb cymedrol ond cyson, yn amrywio o 52% i 59%. Roedd yr anghytuno'n dal yn isel ar draws pob sector, ac roedd y cyfraddau ar gyfer dim ymateb yn sylweddol uwch yn y trydydd sector a'r sector cyhoeddus (35% ill dau), gan awgrymu llai o ymgysylltu neu ansicrwydd yn y grwpiau hyn o'i gymharu ag eraill ar gyfer y cwestiwn hwn.

| Sector | Cytuno | Anghytuno | Dim Ymateb |
|---|---|---|---|
| Unigolion | 11 (52%) | 6 (29%) | 4 (19%) |
| Y Sector Preifat | 10 (83%) | 0 (0%) | 2 (17%) |
| Y Trydydd Sector | 36 (57%) | 5 (8%) | 22 (35%) |
| Awdurdodau Lleol | 19 (59%) | 4 (13%) | 9 (28%) |
| Sector Cyhoeddus | 15 (58%) | 2 (8%) | 9 (35%) |

**Tabl 5:** Dadansoddiad sectoraidd o ymatebion i Gwestiwn 14 yr ymgynghoriad ynghylch a ydynt yn cytuno â'r dull o weithredu o ran monitro a gwerthuso. Mae'r tabl yn dangos nifer a chanran Cytuno, Anghytuno a Dim Ymateb o gyfanswm y sector.

Lleisiodd ymatebwyr gefnogaeth eang i fframwaith monitro a gwerthuso cyson sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Fodd bynnag, fe wnaethant nodi nifer o themâu allweddol: Roedd cymesuredd a symlrwydd yn cael eu hystyried yn hanfodol er mwyn osgoi "baich gweinyddol gormodol," yn enwedig ar gyfer prosiectau bach neu brosiectau dan arweiniad y gymuned, gyda cheisiadau dro ar ôl tro i "gadw adrodd yn gymesur â maint y cyllid". Gofynnodd ymatebwyr am gysondeb ac arweiniad cynnar ar ddangosyddion, diffiniadau data a thempledi, dylunio wrth werthuso o'r cychwyn cyntaf ac i gefnogi cymharedd ledled Cymru. Roedd tystiolaeth ansoddol a phrofiad bywyd yn cael eu hystyried yn angenrheidiol ac yn ategu metrigau, gydag astudiaethau achos a llais buddiolwyr yn helpu i gofnodi newid sy'n ystyrlon ond nad yw'n fesuradwy ar unwaith.

<u>Adborth i'r Ymgynghoriad: Dadansoddiad Sectoraidd</u>

**Unigolion**

Roedd ymatebwyr unigol yn adlewyrchu cymysgedd eang o gefnogaeth ac amheuaeth. Cwestiynodd rhai "ble mae'r dystiolaeth bod... wedi dylanwadu ar gyfeiriad y GTLl," tra bod eraill yn nodi ei bod "yn bwysig mesur effaith a gweld sut gallwn wella." Mynegodd nifer fach bryder ynghylch gwerth monitro, gan nodi pryderon ynghylch sut mae gwybodaeth yn cael ei defnyddio a galw am dryloywder ac ymgysylltu'n gliriach â'r cyhoedd. Trafododd nifer o ymatebwyr yr angen am ddisgwyliadau cymesur, yn enwedig ar gyfer meicrofusnesau a busnesau bach mewn ardaloedd gwledig, a chyfeiriwyd at fudd cyfuno data meintiol â thystiolaeth ansoddol a gymerir cyn ac ar ôl ymyriad i ddangos effaith ymarferol. Roedd y cais i'w "gadw mor sylfaenol â phosibl er mwyn osgoi dryswch" yn dal awydd cyson am ofynion syml a hygyrch o ran adrodd.

**Y Sector Preifat**

Cytunodd ymatebwyr yn y sector preifat i raddau helaeth mewn egwyddor â dangosyddion cyson, adrodd ar sail canlyniadau, a rhannu data'n dryloyw - ar yr amod bod y fframwaith monitro a gwerthuso yn parhau i fod yn ymarferol ac yn gymesur.

Roedd nifer o fodelau'r gorffennol yn credu eu bod yn rhy fiwrocrataidd ac yn feichus o ran allbwn, gan annog system "sydd â'r nod o lywio gwelliant parhaus, nid dim ond bodloni gofynion archwilio." Croesawodd yr ymatebwyr gysondeb cenedlaethol ond fe wnaethant ofyn am eglurder cynnar ynghylch diffiniadau data, adborth amser real i bartneriaid cyflawni, a gwerthuso annibynnol i gryfhau hygrededd. Dywedodd eraill fod cylchoedd tair blynedd yn rhy fyr i ddangos tystiolaeth o enillion cynhyrchiant, gan alw am orwelion gwerthuso sy'n adlewyrchu realiti'r sector. Ail-gododd y cwestiwn o adnoddau, gyda chymorth ar gyfer neilltuo capasiti o fewn y lwfans arfaethedig, ochr yn ochr â phryderon y byddai diffyg adnoddau yn gwanhau ansawdd data a dysgu.

**Y Trydydd Sector**

Roedd sefydliadau trydydd sector yn cefnogi'r dull gweithredu ar y cyfan ond yn pwyso am gymesuredd, cyd-ddylunio, a chydnabod canlyniadau mwy meddal fel hyder, llesiant a chymhwysedd digidol. Rhybuddiodd ymatebwyr fod "proses fonitro sydd wedi'i rhagnodi'n ormodol yn arwain at brosiectau sy'n canolbwyntio ar gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol yn hytrach nag allbynnau ystyrlon," ac fe wnaethant annog fframweithiau sy'n gwerthfawrogi cynnydd aflinol i'r bobl sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur. Roedd galwadau am allu data wedi'i ariannu yn aml er mwyn osgoi eithrio darparwyr llai. Roedd ymatebwyr yn argymell bod tystiolaeth ansoddol a phrofiad bywyd yn cyd-fynd â metrigau, ac ar gyfer dysgu ar y cyd ar draws rhanbarthau fel bod "beth sy'n gweithio" yn cael ei gofnodi a'i ledaenu yn hytrach na'i golli yn ystod y cyfnod pontio. Nododd sawl un yr angen i gynnwys gwerth cymdeithasol, Gwaith Teg, cynhwysiant a chynaliadwyedd amgylcheddol yn y set o ddangosyddion ac i sicrhau nad yw'r baich yn "creu rhwystr i gyfranogiad."

**Sector Cyhoeddus**

Roedd cyrff cyhoeddus yn cefnogi model cadarn sy'n hirdymor, yn symlach ac yn gyson â fframweithiau polisi ehangach. Dywedodd llawer grymuso a chydgynhyrchu cymunedol, a galw am ddangosyddion perfformiad allweddol clir sy'n adlewyrchu cynhyrchiant, sgiliau, cynhwysiant a llesiant, wedi'u hategu gan ddulliau dadansoddi priodol fel Damcaniaeth Newid. Roedd ymatebwyr yn annog integreiddio â fframweithiau statudol, cydnabod bod effeithiau'n dod i'r amlwg y tu hwnt i dair blynedd, ac annibyniaeth wrth werthuso. Daeth pryderon i'r amlwg ynghylch pa mor ddigonol yw'r lwfans capasiti "hyd at 4%", gyda rhai'n dadlau ei fod yn "debygol o fod

yn rhy isel," yn enwedig os yw capasiti'r rhaglen yn defnyddio'r rhan fwyaf o'r dyraniad. Dywedodd eraill na ddylai monitro lesteirio hyblygrwydd nac arloesedd o ran cyflawni, gan nodi bod perygl i ddiwylliannau cydymffurfio blaenorol atal creadigrwydd.

**Awdurdod Lleol**

Roedd awdurdodau lleol yn cytuno'n gyffredinol â'r dull gweithredu arfaethedig ac yn croesawu safoni, eglurder cynnar, ac adrodd cymesur. Fe wnaethant ofyn am fesurau sy'n mynd y tu hwnt i allbynnau economaidd cul i adlewyrchu blaenoriaethau sy'n seiliedig ar leoedd, llesiant, canlyniadau amgylcheddol a realiti gwledig. Trafododd nifer niwed cylchoedd cyllido byr a'r her o ddangos tystiolaeth o ganlyniadau ar ôl i brosiectau ddod i ben, gan ddadlau bod yn rhaid i werthusiad ddelio ag effeithiau tymor hir. Gofynnodd awdurdodau lleol am roi gwybod yn brydlon am ofynion y flwyddyn bontio a thempledi adrodd syml, gan nodi na ellir defnyddio "gofynion safonol... yn ôl-weithredol ar ôl i brosiectau gael eu cyflawni." Roedd eraill yn annog aliniad â dyletswyddau monitro rhanbarthol eraill er mwyn osgoi dyblygu ac yn pwyso am ddolenni dysgu amser real er mwyn gallu addasu'r cyflawni'n gyflym.

<u>Adborth i'r Ymgynghoriad: Casgliad</u>

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o blaid system fonitro a gwerthuso cydlynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n blaenoriaethu canlyniadau, dysgu ar y cyd a gwelliant parhaus. Er mwyn cynnal hyder, rhaid i'r fframwaith monitro a gwerthuso fod yn glir, yn gyson ac yn gymesur, gan gofnodi newid ansoddol yn ogystal â newid meintiol, a chymryd golwg realistig ar amserlenni a chapasiti.

## Effaith ar y Gymraeg: Crynodeb o'r Ymatebion

<u>Dull</u>

Mae'r adran hon yn cyfosod cyflwyniadau'r ymatebwyr i Gwestiynau 15 ac 16 ac yn adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth barn.

**Cwestiwn 15: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai ein cynigion ar gyfer y GTLI yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

**Cwestiwn 16: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y cynigion polisi arfaethedig ar gyfer y GTLI er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

<u>Adborth i'r ymgynghoriad</u>

Mae'r ymatebion yn dangos cydnabyddiaeth eang ar draws pob sector y gallai'r GTLI gefnogi'r Gymraeg yn gadarnhaol os yw dwyieithrwydd yn cael ei wreiddio'n fwriadol yn y meini prawf ar gyfer dylunio, cyflawni a chyllido prosiectau. Er bod llawer yn croesawu cyfleoedd i gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg, mynegwyd pryderon ynghylch risgiau anghysondeb, adnoddau annigonol, ac effeithiau negyddol posibl symud cyllid o refeniw i gyfalaf - yn enwedig ar gyfer cymunedau gwledig a chymunedau Cymraeg eu hiaith. Datganodd ymatebwyr yr angen am ddisgwyliadau clir, monitro a chymorth ymarferol i sicrhau bod modd cyflawni cael deunyddiau, staff a dulliau cymunedol dwyieithog, gan ddweud y gallai'r Gymraeg gael ei gwthio i'r cyrion heb flaenoriaethu penodol er ei bod yn cael ei hystyried yn rhan annatod o hunaniaeth, diwylliant a datblygu economaidd effeithiol.

<u>Adborth i'r Ymgynghoriad: Dadansoddiad sectoraidd</u>

**Unigolion**

Mynegodd ymatebwyr unigol safbwyntiau gwahanol iawn, o eiriolaeth gref dros ddwyieithrwydd i amheuaeth ynghylch perthnasedd a'r gallu i gyflawni. Pryder a godwyd dro ar ôl tro oedd y gallai model sydd wedi'i bwysoli'n ormodol ar gyfalaf, erydu capasiti ar gyfer cyflawni cyfrwng Cymraeg mewn awdurdodau lleol a gwasanaethau, gan wanhau cyfleoedd bob dydd i ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd nifer o ymatebwyr yn cysylltu canlyniadau ieithyddol â realiti economaidd ymarferol - gan gynnwys cydbwysedd rhwng cyfalaf a refeniw, cysylltedd trafnidiaeth, a hyfywedd cymunedau gwledig - gan bwysleisio bod hyfywedd ieithyddol yn dibynnu ar allu pobl i fyw a

gweithio'n lleol. Roedd eraill yn annog dull hyblyg o feithrin hyder ar gyfer meicrofusnesau a busnesau bach, gan ddweud y gallai gofynion llym neu gosbol atal yn hytrach nag annog defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau busnes ac ar-lein.

Rhybuddiodd rhai ymatebwyr yn benodol y byddai symud cyllid "i gyfalaf yn bennaf" yn "colli llawer o aelodau staff ar draws yr awdurdodau lleol sy'n siarad Cymraeg," gyda'r effaith "y bydd yn parhau i leihau" defnydd o iaith oni bai fod cymorth refeniw yn cynnal capasiti dwyieithog. Roedd eraill yn annog disgwyliadau cymesur, wedi'u cyfleu'n glir, sy'n lleihau anghysondeb: "Potensial i ddarparu canlyniadau cadarnhaol... ar yr amod bod gofynion o ran y Gymraeg yn gymesur, yn cael eu cyfleu'n glir i gyflenwyr ac yn cyd-fynd â'r safonau a'r dyletswyddau presennol." Roedd syniadau fformiwleiddio ymarferol, cefnogol yn cynnwys "mabwysiadu dull gweithredu hyblyg a chefnogol o ddefnyddio iaith mewn busnes," defnyddio lleoleiddio a thrawsgreu yn hytrach na chyfieithu uniongyrchol yn unig, a darparu "arweiniad clir, cymorth i fagu hyder ac astudiaethau achos perthnasol." Roedd rhai ymatebwyr yn rhoi seilwaith a thai lleol yn flaenllaw o ran rhagofynion: "Gwella ein cysylltiadau ffyrdd... fel nad oes rhaid i bobl mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd sy'n siarad Cymraeg symud ar gyfer gwaith... dylid rhoi blaenoriaeth i dai ar gyfer pobl leol."

I unigolion, mae effaith debygol y GTLl yn amrywio o gadarnhaol i negyddol yn dibynnu ar ei gweithrediad. Cyfeiriwyd dro ar ôl tro at gymorth i feithrin hyder, gofynion cymesur, a sylfaen refeniw/capasiti ar gyfer gwasanaethau dwyieithog fel dulliau pendant o sicrhau llwyddiant.

**Y Sector Preifat**

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn y sector preifat yn derbyn canologrwydd y Gymraeg i hunaniaeth a phrofiad cwsmeriaid, gyda'r gefnogaeth gryfaf pan fo dwyieithrwydd yn cael ei "wreiddio o'r cychwyn cyntaf" wrth ddylunio rhaglenni a gwasanaethau. Galwodd ymatebwyr am feini prawf caffael gorfodadwy, gallu amlwg i siarad Cymraeg mewn timau cyflawni craidd, sianeli digidol dwyieithog yn ddiofyn, a monitro tryloyw. Pwysleisiodd rhai hefyd fod gan gyflawni economaidd brif ffrwd bolisïau iaith ymarferol yn barod, gan awgrymu parhad ynghyd â newid sylweddol wedi'i dargedu dim ond lle mae capasiti neu dechnoleg ddwyieithog (e.e. llwyfannau digidol Cymraeg) angen buddsoddiad.

Rhybuddiodd un ymatebydd yn erbyn cyflawni cenedlaethol symbolaidd. Nododd darparwyr fod angen dylunio o'r dechrau, nid ychwanegu: “Mae gan y GTLl y potensial i greu effeithiau cadarnhaol...os yw’r cynigion yn canolbwyntio ar sicrhau bod dwyieithrwydd yn cael ei wreiddio o’r cychwyn cyntaf.”

Mae safbwyntiau’r sector preifat yn dod ynghyd ar weithredu dwyieithrwydd - drwy sgorio caffael, gallu tîm, a chyflawni digidol ddwyieithog arferol - gan sicrhau cymorth cymesur i gyflenwyr llai i feithrin capasiti.

**Y Trydydd Sector**

Roedd ymatebion y trydydd sector yn croesawu potensial y GTLl i gryfhau’r Gymraeg - yn enwedig drwy fodelau cymunedol, hunaniaeth ddiwylliannol ac ymgysylltu â phobl ifanc - ond roeddent yn rhybuddio nad yw effeithiau cadarnhaol yn dod yn awtomatig. Roeddent yn dweud bod angen adnoddau ar gyfer cyfieithu, deunyddiau dwyieithog, a recriwtio/hyfforddi staff sy’n siarad Cymraeg, ochr yn ochr â monitro sy’n cofnodi defnydd go iawn yn hytrach na thicio blychau. Thema gyson oedd bod yn rhaid i ymgysylltu â’r Gymraeg ar gyfer pobl ifanc sy’n bell o addysg ffurfiol ddechrau gyda hunaniaeth a pherthyn mewn lleoliadau anffurfiol y gellir ymddiried ynddynt.

Roedd ymatebwyr yn annog bod y Gymraeg yn cael ei thrin “fel ased cymunedol, diwylliannol ac economaidd yn hytrach na dim ond rhywbeth i’w hystyried o ran cydymffurfio,” tra’n rhybuddio am “weithredu anwastad” heb ddisgwyliadau clir o ran y cam dylunio. O ran fformiwleiddio effeithiol, esboniodd un ymatebydd “ni fydd dim ond ehangu disgwyliadau ffurfiol o ran y Gymraeg yn ymgysylltu” â phobl ifanc dan anfantais; yn hytrach, “[dylai] ymgysylltu â’r Gymraeg gael ei arwain gan y gymuned yn hytrach na sefydliadau,” gan ddefnyddio diwylliant, cerddoriaeth a chwaraeon i ailadeiladu hunaniaeth yn gyntaf. Roedd y cynigion ymarferol yn cynnwys “adnoddau ar gyfer cyfieithu, hyfforddi staff, recriwtio staff sy’n siarad Cymraeg, a datblygu deunyddiau dwyieithog,” er mwyn i ddarparwyr llai allu cyflawni heb faich anghymesur o ran disgwyliadau.

Nododd y trydydd sector fod canlyniadau’n dibynnu ar gyflawni cymunedol, cefnogaeth gymesur i gapasiti, a monitro sy’n gwerthfawrogi newid diwylliannol a defnydd bob dydd, nid cydymffurfiad ffurfiol yn unig.

## Sector Cyhoeddus

Roedd cyrff sector cyhoeddus yn gadarnhaol ar y cyfan am botensial y GTLl os caiff dwyieithrwydd ei wreiddio ar draws dylunio, cyflawni, llywodraethu a gwerthuso. Roeddent yn eiriol dros ddisgwyliadau clir, fframweithiau monitro, llwybrau sgiliau'r gweithlu, ac adnoddau cymesur i osgoi cyfyngu effeithiau cyllid sydd wedi'i bwysoli'n ormodol ar gyfalaf. Cyfeiriodd rhai at y risg bod llai o refeniw yn tanseilio capasiti'r Gymraeg mewn ardaloedd gwledig ac yn gwanhau'r gallu i gefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Nododd ymatebwyr fod effeithiau cadarnhaol yn cynnwys "mwy o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg a mwy o ymgysylltu â'r gymuned," gyda risgiau'n cael eu lliniaru drwy "ofyn am gyflawni dwyieithog ym mhob prosiect a ariennir." Fe wnaethant hefyd ddweud y gallai cynhyrchiant uwch "ryddhau amser i weithwyr gymryd rhan mewn darpariaethau Cymraeg," gan gysylltu nodau economaidd ac ieithyddol. Roedd nifer o ymatebion yn dadlau dros ddarpariaethau penodol neu wedi'u neilltuo - "pot... pwrpasol" i sicrhau cynnyrch digidol dwyieithog a mwy o gyllid ar gyfer "Cymraeg yn y gweithle" - ac yn galw am arweinyddiaeth, diwylliant ac atebolrwydd fel bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys "o'r cychwyn cyntaf" ac "nid... fel ôl-ystyriaeth."

I'r sector cyhoeddus, mae'r effaith yn dibynnu ar brif ffrydio dwyieithrwydd ar draws meini prawf, llwybrau sgiliau, monitro ac adnoddau - yn enwedig refeniw sy'n cynnal capasiti cyflenwi mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd Cymraeg eu hiaith.

## Awdurdod Lleol

Dywedodd awdurdodau lleol fod y Gymraeg eisoes wedi'i gwreiddio mewn llawer o bolisïau a mesurau cymorth, ond roeddent yn rhybuddio, heb flaenoriaethu penodol a hyblygrwydd cyllido, y gellir gwanhau'r iaith - yn enwedig lle mae cyflawni'n canolbwyntio ar drefi neu'n cael ei harwain yn allanol. Galwodd awdurdodau am brif ffrydio'r Gymraeg ar draws pob prosiect, monitro cadarn, a chydnabod y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'n ddwyieithog. Roedd llawer yn pwyso am gymysgedd mwy cytbwys o gyfalaf a refeniw i gynnal capasiti staff, ac am ddulliau gwledig/cymunedol sy'n cynnal cadarnleoedd y Gymraeg.

Roedd ymatebwyr yn argymell defnyddio sianeli cyfoes - “fideos byr Cymraeg ar You Tube a Tik Tok... drwy gydol oes y prosiect” - a gwreiddio gofynion iaith mewn achosion busnes a gwerthuso, gyda chymorth wedi’i deilwra lle mae anghenion yn amrywio yn ôl rhanbarth. Roedd nifer yn eiriol dros gysoni â rhaglenni arddull ARFOR sy’n seiliedig ar leoedd ac ailgydbwyso’r rhaniad 70:30 rhwng cyfalaf a refeniw i gydnabod costau parhaus cyflawni’n ddwyieithog.

Mae awdurdodau lleol yn gweld potensial cryf os bydd ystyriaethau’n ymwneud â’r Gymraeg yn cael eu gwreiddio, eu hariannu a’u monitro’n systematig.

Adborth i’r Ymgynghoriad: Casgliad

Roedd barn am y Gymraeg yn amrywio’n fawr. Gyda’i gilydd, mae’r ymatebion yn dangos y gall y GTLI wneud cyfraniad ystyrlon a chadarnhaol i’r Gymraeg lle mae dwyieithrwydd yn cael ei weithredu - nid ei gefnogi o ran sioe - drwy ofynion y cam dylunio, ysgogiadau caffael, refeniw wedi’i dargedu a chymorth capasiti, a monitro cymesur ond credadwy. Y risg a nodir amlaf yw nid gelyniaeth at y Gymraeg ond rhoi’r iaith i un ochr yn anfwriadol drwy beidio â darparu digon o adnoddau, sy’n atal darparwyr llai a meicrofusnesau. Yr ateb cyson a gynigir yw gwreiddio ymarfer dwyieithog fel nodwedd arferol o ddatblygu economaidd sy’n seiliedig ar leoedd ac sy’n cael ei arwain gan y gymuned - wedi’i gefnogi gan ganllawiau ymarferol, parodrwydd digidol, ac atebolrwydd sy’n cyfleu defnydd a hyder gwirioneddol, nid dim ond cydymffurfiaeth.

## Sylwadau ychwanegol

Dull

Mae’r adran hon yn cyfosod ymatebion sector wrth sector i’r ymgynghoriad o ran cwestiwn 17.

**Cwestiwn 17: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch yr ymgynghoriad hwn i fynd i’r afael â nhw.**

<u>Adborth i'r Ymgynghoriad: Dadansoddiad Sectoraidd</u>

## Unigolion

Nododd ymatebwyr unigol awydd am fwy o eglurder a sicrwydd ynghylch sut bydd cyllid yn cael ei reoli'n lleol. Mynegodd rhai bryder y gallai trefniadau cyllido, heb fesurau diogelu clir, roi pwysau anfwriadol ar gyllidebau awdurdodau lleol, gan nodi y bydd "yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio gan Awdurdodau Lleol i lenwi bylchau mewn cyllidebau staffio ar gyfer staff a gwasanaethau presennol." Yn hytrach na chwestiynu bwriadau cyflawni, roedd y safbwyntiau hyn yn adlewyrchu dymuniad am brosesau tryloyw sy'n sicrhau bod cyllid yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd.

Nododd ymatebwyr hefyd bwysigrwydd blaenoriaethu refeniw lle mae ei angen i gynnal capasiti lleol, gan nodi "os byddwn yn gwario cyfalaf mwyafrifol, ni fydd digon o staff i oruchwylio'r gwariant."  Gofynnodd pobl sut byddai blaenoriaethau rhanbarthol yn cael eu penderfynu a phwysleisiwyd yr angen am ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar brofiad bywyd. Nododd rhai y gall ansicrwydd yn ystod cyfnodau pontio amharu ar berthnasoedd sefydledig a'r gallu i gyflawni, gan egluro bod oedi hir yn "creu bylchau mewn capasiti sy'n anodd ac yn gostus i'w hailadeiladu." Roedd galwadau am gyfathrebu cliriach, amserlenni realistig a chanllawiau hygyrch ar gaffael a rheoli cymorthdaliadau yn adlewyrchu awydd adeiladol i gefnogi gweithredu llyfnach. Gofynnodd llawer o ymatebwyr hefyd am "raniad mwy cyfartal o gyfalaf a refeniw" er mwyn gallu cyflawni'n gytbwys ac yn effeithiol.

## Y Sector Preifat

Roedd ymatebwyr yn y sector preifat yn annog system amrywiol sy'n osgoi canoli a dyblygu, yn meithrin cystadleuaeth, ac yn gwreiddio llywodraethu tryloyw gyda "c[h]yhoeddi canlyniadau, contractau a data perfformiad yn agored." Fe wnaethant ofyn am lais cryfach gan y sector preifat yn y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, trawsnewid ailadroddol sy'n tarfu cyn lleied â phosibl, a phwyntiau mynediad pragmatig fel sgyrsiau cyn-gymhwyso er mwyn gallu gwneud "addasiadau angenrheidiol" cyn gwrthod. Nododd rhai flaenoriaethau sectoraidd, yn enwedig gwasanaethau ariannol a busnesau technoleg newydd, gan alw am sgiliau integredig a chymorth menter. Trafododd eraill gyfleoedd strategol ym maes ynni adnewyddadwy ar y môr a gofyn am gyflawni dwyieithog go iawn fel gofyniad craidd, nid fel "ôl-ystyriaeth." Yn

gyffredinol, mae llwyddiant wedi'i fframio fel llai am ddogfennau strategaeth a mwy am sut mae cyflawni yn cael ei strwythuro, ei llywodraethu a'i ymgysylltu gyda busnesau.

**Y Trydydd Sector**

Roedd sefydliadau trydydd sector yn dadlau'n gyson bod canlyniadau trawsnewidiol yn dibynnu ar refeniw parhaus i bobl, perthnasoedd a chymorth cofleidiol. Fe wnaethant rybuddio bod rhaniad 70/30 rhwng refeniw a chyfalaf yn "rhedeg y risg o leihau neu ddod â gwasanaethau'r sector gwirfoddol i ben", gan gyfeirio at wersi o drawsnewidiadau'r UE a'r GFfG lle'r oedd terfyniadau sydyn i raglenni yn niweidio pobl a oedd yn dibynnu ar y gwasanaethau.  Datganodd sawl un yr angen am hyblygrwydd i bobl ifanc â bywydau cymhleth, integreiddiad iechyd meddwl penodol, telerau talu cymesur i ddarparwyr llai, a chydnabod canlyniadau cyfiawnder ac atal a phwysleisiodd fod yn rhaid cydnabod bod "darpariaeth gymunedol yn hanfodol, nid yn ddewisol" pan fydd cymorth yn cael ei gynnig.

**Sector Cyhoeddus**

Galwodd cyrff cyhoeddus am berchnogaeth gymunedol gryfach, hygyrchedd gwledig, ac integreiddio canlyniadau cymdeithasol a llesiant wrth gynllunio prosiectau, gyda mecanweithiau i gasglu a rhannu arferion gorau ar draws rhanbarthau. Cafodd adnoddau naturiol ac addasu i'r hinsawdd eu fframio fel pethau sylfaenol i dwf, gyda chyngor i integreiddio gofynion amgylcheddol a rheoleiddiol o'r cychwyn cyntaf a defnyddio Asesiadau Risg Newid Hinsawdd Rhanbarthol i lywio buddsoddiad. Gofynnodd sawl un am gydnabyddiaeth ffurfiol i brifysgolion fel partneriaid cyflenwi ac am fetrigau arloesedd a sgiliau mewn fframweithiau perfformiad. Y neges gyffredinol yw'r angen am amserlenni clir, trefniadau pontio realistig, a sicrwydd amlflwyddyn i gadw staff, diogelu parhad, a chyfateb partneriaid â blaenoriaethau hirdymor.

**Awdurdod Lleol**

Roedd awdurdodau lleol yn ffafrio ymreolaeth leol yn gryf wrth gyflawni, diogelu refeniw i gynnal rhaglenni staff a rhaglenni yn y gymuned, a chadw pensaernïaeth a modelau ymgysylltu llwyddiannus y GFfG yn ddiogel. Fe wnaethant bwysleisio bod amserlenni byr a phroffil sy'n drwm ar gyfalaf yn rhedeg y risg o greu bylchau gwasanaeth, gydag un awdurdod yn rhybuddio bod y cyfnod pontio o flwyddyn "yn ei gwneud yn debygol iawn na fydd unrhyw gyflawni yn ystod 2025-2026," gan leihau'r

amser sydd ar gael i greu effaith gadarnhaol. Gofynnodd awdurdodau lleol am ddadansoddiad o'r bylchau i weld yr ardaloedd nad oedd digon o fuddsoddiad ynddynt ac roeddent yn eiriol dros gydnabyddiaeth benodol o heriau gwledig, sicrwydd cymesur, a thryloywder o ran dyraniadau.

Adborth i'r Ymgynghoriad: Casgliad

Roedd yr ymatebion yn cynnig rysáit bragmatig ar gyfer effaith: ail-gydbwyso cyfalaf a refeniw fel bod pobl, gwasanaethau a lleoedd yn symud ymlaen gyda'i gilydd; cadw cyflenwi lleol yn ddiogel a'i grymuso gyda llywodraethu clir a thryloyw; darparu sicrwydd amlflwyddyn i gadw capasiti ac osgoi siociau pontio; a gwreiddio llesiant, gwaith teg, addasu i'r hinsawdd, cyflawni dwyieithog, a hygyrchedd gwledig fel egwyddorion dylunio craidd. Mae ymatebwyr yn cydnabod cyfleoedd mawr - o ynni adnewyddadwy ar y môr i dreftadaeth gymunedol - ond roeddent yn mynnu mai dim ond os bydd capasiti gweithredol, camau atal a gwybodaeth leol yn cael eu diogelu drwy'r cyfnod pontio a thu hwnt i 2029 y byddai'r rhain yn troi'n dwf cynhwysol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adborth adeiladol a gafwyd drwy'r ymgynghoriad hwn ac yn diolch i'r holl unigolion, sefydliadau a phartneriaid a gyfrannodd. Mae'n galonogol gweld y gymeradwyaeth eang i gyfeiriad cyffredinol y GTLl a'r uchelgais ar y cyd i sicrhau twf economaidd mwy cynhwysol a chynaliadwy ledled Cymru.

Roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod twf yn deg ac yn gynhwysol, ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol, daearyddol ac ieithyddol, gan gynnwys yr heriau penodol sy'n wynebu ardaloedd gwledig ac arfordirol, lleoedd sy'n profi amddifadedd hirdymor, a chymunedau Cymraeg. Rydym yn cydnabod y materion hyn ac rydym wedi ymrwymo o hyd i wreiddio tegwch a chynhwysiant wrth galon y gwaith o ddylunio a darparu'r GTLl.

Ar draws themâu, nododd ymatebwyr bwysigrwydd cydbwyso buddsoddiad cyfalaf a refeniw, cynnal capasiti cyflawni, a chynnal cysylltiadau lleol dibynadwy yn ystod y cyfnod pontio o'r GFfG i'r GTLl. Rydym yn cydnabod y pryderon ynghylch bylchau posibl o ran darpariaeth a byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid rhanbarthol i

sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau cynnar, cymorth i bartneriaid cyflenwi, a mesurau i ddiogelu capasiti'r gweithlu drwy'r newid newydd.

Dywedodd ymatebwyr hefyd bod angen model cyllido sy'n cefnogi arloesedd, yn cryfhau sgiliau, yn gwella seilwaith lleol ac yn adlewyrchu anghenion amrywiol cymunedau gwledig, arfordirol a threfol - yn hytrach nad dibynnu ar boblogaeth yn unig. Byddwn yn defnyddio'r adborth hwn i fireinio ein dull gweithredu, gan gydbwyso'r galw i'r GTLI barhau'n hyblyg i ymateb i flaenoriaethau rhanbarthol a lleol â'r angen i gael ei harwain gan dystiolaeth a gwella'r cydlynu â rhaglenni rhanbarthol a pholisi cenedlaethol. Byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi canllawiau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau twf rhanbarthol tymor hwy.

Rydym wedi ymrwymo o hyd i wreiddio disgwyliadau clir ynghylch darpariaeth ddwyieithog, gwaith teg a thwf cynhwysol. Gan weithio gyda Chyd-bwyllgorau Corfforedig, awdurdodau lleol, y trydydd sector, y sector preifat a chyrff cyhoeddus eraill gan gynnwys sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, byddwn yn helpu i lunio cynlluniau rhanbarthol hirdymor sy'n gydweithredol, y gellir eu cyflawni ac sy'n seiliedig ar leoedd.

Y llinyn aur drwy gydol Cynllun Buddsoddi'r GTLI yw cefnogi twf cynhyrchiant. Mae mynd i'r afael â gwahaniaethau rhanbarthol hirsefydlog yn gofyn am ddull rhanbarthol sy'n mynd i'r afael â chydlynu ac sy'n cyd-fynd â ffrydiau cyllido eraill, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â Strategaeth Ddiwydiannol y DU. Byddwn yn rhoi rhagor o eglurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau i sicrhau bod gan gyrff cyflawni - yn enwedig Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac awdurdodau lleol - y gallu, yr hyblygrwydd a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt heb fiwrocratiaeth ddiangen.

Mae awydd clir ledled Cymru i adeiladu CTLI sy'n cryfhau cynhyrchiant ac sy'n sicrhau canlyniadau tecach i bobl lle bynnag maen nhw'n byw. Rydym wedi ymrwymo o hyd i wneud hyn mewn partneriaeth ar draws pob sector.

**Y Camau Nesaf**

Mae'r ymgynghoriad wedi darparu sylfaen dystiolaeth gyfoethog a manwl, ac rydym yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd. Bydd yr ymatebion yn helpu i lunio Cynllun Buddsoddi'r GTLI ar gyfer Cymru y byddwn yn cytuno arno â Llywodraeth y DU. Bydd yr ymatebion hefyd yn llunio'r fframwaith ategol a fydd yn dilyn y Cynllun

Buddsoddi, gan gynnwys canllawiau a fframwaith monitro a gwerthuso. Byddwn yn gweithio gyda’n partneriaid i ddatblygu a phrofi’r dogfennau ategol hynny cyn i ni eu cyhoeddi.

## Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr

Cafwyd ymatebion gan y canlynol:

| **Sector at ddibenion dadansoddi'r ymatebion** | **Enw'r sefydliad** |
|---|---|
| Y Sector Preifat | • CA Select<br>• Guiding Light Coaching<br>• Atradius<br>• The Hacking Games<br>• Craig Lewis Consulting<br>• Marrill Powys<br>• Airbus<br>• Dulas<br>• Simply Do<br>• Tramshed Tech |
| Sector Cyhoeddus | • Cyngor Cymuned Cefn<br>• Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Prifysgol Caerdydd<br>• GIG Cymru<br>• Coleg Llandrillo/Menai<br>• Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd<br>• Medr<br>• Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru<br>• Mersey Dee Alliance<br>• Prifysgol Metropolitan Caerdydd<br>• Coleg Caerdydd a'r Fro<br>• Prifysgol Bangor<br>• Prifysgolion Cymru<br>• Rhanbarth Prifddinas Caerdydd<br>• Prifysgol Aberystwyth<br>• Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu |

| | |
|---|---|
| Y Trydydd Sector | • Three Js<br>• Fforwm Arfordir Sir Benfro<br>• Partneriaeth Parc Caia Cyf<br>• Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych<br>• Y Cerddwyr<br>• Tempo Time Credits<br>• Cyngor ar Bopeth Merthyr<br>• Llamau<br>• Ynni Môr Cymru<br>• Mentrau Iaith<br>• Dyfodol i'r Iaith<br>• Hyfforddiant Tudful<br>• Menter Gorllewin Sir Gâr<br>• Cwmpas<br>• Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol<br>• Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys<br>• Cadwyn Clwyd Cyfyngedig<br>• Cyngres yr Undebau Llafur<br>• Cymdeithas Cerbydau Trydan Cymru<br>• Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu<br>• Age Connects Morgannwg<br>• Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru<br>• Climate Cymru<br>• Computer Aid<br>• Adra<br>• Unsain<br>• Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys<br>• Ffederasiwn Busnesau Bach |

| | |
|---|---|
| | • GISDA<br>• Coalfields Regeneration Trust<br>• Yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau<br>• Y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol<br>• Mind<br>• Gwasanaeth Gwirfoddol Cymunedol Castell-nedd Port Talbot<br>• Yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint<br>• Cyngor Trydydd Sector Caerdydd<br>• Gweithredu dros Blant<br>• Rhieni dros Addysg Gymraeg<br>• Mudiad Meithrin<br>• Cymdeithas yr Iaith<br>• Comisiynydd y Gymraeg<br>• Rheilffordd Llangollen<br>• Undeb Prifysgolion a Cholegau<br>• Platfform<br>• Ymddiriedolaeth y Brenin<br>• Colegau Cymru |
| Awdurdodau Lleol a CLILC | • Cyngor Castell-nedd Port Talbot<br>• Cyngor Tref Colwyn<br>• Cyngor Sir Fynwy<br>• Cyngor Abertawe<br>• Cyngor Sir Ceredigion<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>• Cyngor Sir Ddinbych<br>• Cyngor Sir Powys |

| | |
|---|---|
| | • Cyngor Bro Morgannwg<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>• Cyngor Sir Penfro<br>• Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Cyngor Caerdydd<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>• Cyngor Gwynedd<br>• Cyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer<br>• Cyngor Sir y Fflint<br>• Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |

Ni chynhwyswyd unigolion yn y tabl uchod. Ni chynhwyswyd sefydliadau nad oeddent wedi datgan eu henwau neu a oedd yn dymuno aros yn ddienw yn y tabl uchod chwaith. Dim ond unwaith y mae'r sefydliad wedi'i enwi, hyd yn oed pan dderbyniwyd sawl cyflwyniad.